- (iii) The complexity of the current arrangements under the GPDO, in particular for the prior approval procedure for development other than for telecommunications masts (dealt with under Issues 1 and 2).

### **Risk Assessment**

A risk assessment is not appropriate. The amendments are being suggested in order to improve public consultation in the planning process rather than address any specific risk.

### **Options**

For Issue 1, two options have been identified:

remove permitted development rights for the installation of all ground based masts (Option One); and

remove permitted development rights for the installation of ground based masts and require either prior approval or planning permission for the alteration or replacement of all ground based masts where the height is increased (Option Two).

For Issue 2, two options have been identified:

remove permitted development rights for the installation of all masts on buildings or structures (Option Three); and

remove permitted development rights for the installation of ground based masts and require either prior approval or planning permission for the alteration or replacement of all masts on buildings or structures where the height is increased (Option Four).

### **Issues of equity of fairness**

Is it fair to deny affected individuals adequate consultation arrangements for a proposed telecommunications development?

Is it fair to impose delay/additional cost on telecommunications operator?

### **Identification of benefits**

Amendments to the current planning regime would remove a number of areas of contention within the existing arrangements.

For Issue 1:

- i. Option One would allow the public an increased opportunity to comment upon, and the local planning authority a longer period to consider, any proposed ground based mast installation.
- ii. Option Two, as i, plus would allow the public an increased opportunity to comment upon the alteration or replacement of all ground based masts where the height is increased.

For Issue 2,

- i. Option Three would allow the public an increased opportunity to comment upon, and the local planning authority a longer period to consider, any proposed mast installation on a building or structure.
- ii. Option Four, as i, plus would allow the public an increased opportunity to comment upon the alteration or replacement of all masts on buildings or structures where the height is increased

### **Quantification and value of benefits**

The benefit of public involvement is not quantifiable.

## **Business sectors affected**

All operators granted Telecommunications Code powers under its licence. The proposals would be expected to affect mainly those operators licensed to operate a mobile or radio fixed-link phone service. There are currently five national mobile operators and seven radio fixed-access operators.

## **Compliance costs for a “typical” business**

### a. Recurring

For Issue 1:

- (i) Costs incurred under Option One include those incurred in making a planning application. Under current regulations, a fee of £35 is payable in respect of an application for prior approval determination, whereas a fee of £95 per 0.1 hectares of the site area (subject to a maximum limit of £950) is payable in respect of a planning application. There may be further associated costs. Options would also introduce a longer period for the local planning authority to consider whether to grant consent. Additional costs to industry may be associated with this option as there is no absolute time limit within which a planning application must be determined. The cost for this option is approximately [Operators are asked to provide costs broken down in to:

Cost of additional fees.

Cost of additional manpower

Cost of delays to network rollout (including how the figure has been calculated) ]

- (ii) The additional costs incurred under Option Two would be those incurred in making a planning application (see above), plus additional costs in respect of applications for planning permission for the alteration or replacement of masts where the height is increased. [Operators are asked to provide costs broken down in to:

Cost of additional fees.

Cost of additional manpower.

Cost of delays to network rollout (including how the figure has been calculated) ]

- (i) For Issue 2

Costs incurred under Option Three include those incurred in making a planning application. Under current regulations, a fee of £35 is payable in respect of an application for prior approval determination, whereas a fee of £95 per 0.1 hectares of the site area (subject to a maximum limit of £950) is payable in respect of a planning application. There may be further associated costs. Options would also introduce a longer period for the local planning authority to consider

whether to grant consent. Additional costs to industry may be associated with this option as there is no absolute time limit within which a planning application must be determined. The cost for this option is approximately [Operators are asked to provide costs broken down in to:

Cost of additional fees.

Cost of additional manpower.

Cost of delays to network rollout (including how the figure has been calculated) ]

- (ii) The additional costs incurred under Option Four would be those incurred in making a planning application (see (i) above), plus additional costs in respect of applications for planning permission for the alteration or replacement of masts where the height is increased. [Operators are asked to provide costs broken down in to:

Cost of additional fees.

Cost of additional manpower.

Cost of delays to network rollout (including how the figure has been calculated) ]

- b. Non-recurring costs

Nil

- c. Total compliance costs

Not known as yet - information sought as part of this consultation exercise.

### **Impact on Small Business**

Business Connect Wales Ltd is being consulted. Comments from the CBI and FSB will also be invited.

### **Other costs**

DTI have estimated that the loss in benefits to users of third generation (3G) services as a result of a one month delay in the implementation of 3G services averages about £100m per annum over a 10 year period at 2000 prices. The benefits to users are estimated in terms of the amount of money that users would be willing to pay for their services less the amount that they are forecast to pay. This measure is called consumer surplus.

For **Issue 1**, both options might lead to additional representations for local planning authorities to consider in processing ground based mast applications. This would have implications in terms of time and manpower.

Both Options might lead to additional applications being submitted to local planning authorities to consider. This would have implications for the operator in terms of time and manpower, particularly where authorities did not comply with the current guidance.

Option One might lead to additional appeals to the Assembly by the operator if applications were not determined in the 8 week time period. This would have implications in terms of time and manpower for the Planning Inspectorate.

For **Issue 2**, both Options might lead to additional representations for local planning authorities to consider in processing applications for masts on buildings and structures. This would have implications for the operator in terms of time and manpower.

Both Options might lead to additional applications being submitted to local planning authorities to consider. This would have implications for the operator in terms of time and manpower, particularly where authorities did not comply with the current guidance.

Option Three might lead to additional appeals to the Assembly by the operator if applications were not determined in the 8 week time period. This would have implications in terms of time and manpower for the Planning Inspectorate

### **Results of Consultation**

Many of the proposals were developed in the context of discussions with representatives of the telecommunications industry and local government. We invite views in the consultation paper on the Regulatory Impact Assessment including the assessment of costs and benefits, and the impact on business. We will revise the Assessment in the light of responses received.



<b>Issue 1</b>		
	<b>Option One</b>	<b>Option Two</b>
<b>Business</b>	Expected Costs – increased planning fees and potential delay in rollout.	Expected Costs – increased planning fees and potential delay in rollout
<b>Local Government</b>	<p>Expected Costs – extra resources required to deal with additional publicity and representations.</p> <p>Expected benefits – additional time granted to consider development.</p> <p>Greater public confidence in final decision.</p>	<p>Expected Costs – extra resources required to deal with additional publicity and representations.</p> <p>Expected Benefits – additional time granted to consider development.</p> <p>Greater public confidence in final decision.</p>
<b>Citizens</b>	<p>Expected Benefits – public guaranteed the opportunity to comment on installation of ground based mast.</p> <p>Expected Costs – loss of consumer benefit from delayed roll-out of networks.</p>	<p>Expected Benefits – public guaranteed the opportunity to comment on installation, alteration or replacement of ground based mast.</p> <p>Expected Costs – loss of consumer benefit from delayed roll-out of networks.</p>

<b>Issue 2</b>		
	<b>Option Three</b>	<b>Option Four</b>
<b>Business</b>	Expected Costs – increased planning fees and potential delay in rollout.	Expected Costs – increased planning fees and potential delay in rollout.
<b>Local Government</b>	<p>Expected Costs – extra resources required to deal with additional publicity and representations.</p> <p>Expected Benefits – additional time granted to consider development.</p> <p>Greater public confidence in final decision</p>	<p>Expected Costs – extra resources required to deal with additional publicity and representations.</p> <p>Expected Benefits – additional time granted to consider development.</p> <p>Greater public confidence in final decision.</p>
<b>Citizens</b>	<p>Expected Benefits – public guaranteed the opportunity to comment on installation of a mast on a building or structure.</p> <p>Expected Costs – loss of consumer benefit from delayed roll-out of networks.</p>	<p>Expected Benefits – public guaranteed the opportunity to comment on installation, alteration or replacement of a mast on a building or structure.</p> <p>Expected Costs – loss of consumer benefit from delayed rollout of networks.</p>

### **Enforcement, Sanctions, Monitoring and Review**

The existing enforcement provisions would cover the new arrangements. Any development which neither complies with the requirements of the GPDO nor enjoys planning permission would be open to enforcement action by the local planning authority. The Assembly will continue to review the working of the arrangements as necessary.

## PART 6

Other Recommendations of the Stewart Group concerning planning requirements for base stations

1. The Stewart Group recommended that, as a precautionary approach, the ICNIRP guidelines for public exposure be adopted for use in the UK rather than the NRPB guidelines (paragraph 1.27 of the report). The Government and the Assembly agree, in line with the recommended precautionary approach, that the emissions from mobile phone base stations should meet the ICNIRP guidelines for public exposure as expressed in the EU Council Recommendation of 12 July 1999 on the limitation of exposure of the general public to electromagnetic fields (0 Hz to 300GHz). Most base stations already meet the ICNIRP guidelines and all new base stations will do so.

2. The Stewart Group recommended that, at national Government level, a template of protocols be developed, in concert with industry and consumers, which can be used to inform the planning process and which must be assiduously and openly followed before permission is given for the siting of a new base station (paragraph 1.37). The Group recommended that the template of protocols should cover the following issues:

- all telecommunications network operators must notify the local authority of the proposed installation of base stations. This should cover installations for macrocells, microcells and picocells.
- the local authority should maintain an up-to-date list of all such notifications which should be readily available for public consultation.
- the operator should provide to the local authority a statement for each site indicating its location, the height of the antenna, the frequency and modulation characteristics, and details of power output.
- any change to an existing base station which increases its size, or the overall power radiated, should be subject to the normal planning process as if it were a new development.

3. The first two protocols will be covered by the national database. Our revised draft Technical Advice Note will include details of the information that operators should provide to LPAs as part of an application for planning permission. This will include most of the information specified under the third protocol, although we are not sure why LPAs would need to have details of the base station's frequency and modulation characteristics. We do not consider that it would be appropriate to require a planning application to be submitted if an existing base station increased its overall power radiated, as recommended by the fourth protocol. It is for the operator, not the local planning authority, to ensure that the base station continues to operate within the ICNIRP guidelines.

4. The Stewart Group recommended that the planning template should be set in place within 12 months of the publication of this report. It should incorporate a requirement for public involvement, an input by health authorities/health boards and a clear and open system of documentation which can be readily inspected by the general public (paragraph 1.38). In the Assembly's view, no useful purpose would be served by consulting health

authorities/health boards on individual applications. Our revised planning guidance will include national guidance on health issues including the role of the ICNIRP guidelines.

5. The Stewart Group recommended that a national database be set up by Government giving details of all base stations and their emissions (paragraph 1.39). The Government has accepted this recommendation and is in the process of bringing together information on base station sites and emissions into a single co-ordinated database. It is intended that information relevant to the site and emission levels will be made available to the public and LPAs.

6. The Stewart Group recommended that an independent random, ongoing, audit of all base stations be carried out to ensure that exposure guidelines are not exceeded outside the marked exclusion zone and that the base stations comply with their agreed specifications. If base station emissions are found to exceed guideline levels, or if there is significant departure from the stated characteristics, then the base station should be decommissioned until compliance is demonstrated (paragraph 1.40). The Stewart Group also recommended that particular attention should be paid initially to the auditing of base stations near to schools and other sensitive sites (paragraph 1.41). The Government has accepted this recommendation. It will be taking forward the national audit of base stations, as proposed by the Group, beginning with schools as a priority. The mobile phone operators have undertaken to take immediate remedial action if any base station is found to be exceeding exposure guidelines.

7. The Stewart Group recommended, in relation to macrocell base stations sited within school grounds, that the beam of greatest intensity should not fall on any part of the school grounds or buildings without agreement from the school and parents. Similar considerations should apply to macrocell base stations sited near to school grounds (paragraph 1.42). Where parents/and/or schools wish to know whether the beam of intensity falls on school grounds or buildings, the school should contact the base station's operator. The operators have agreed to provide schools with information on the level of intensity of radio frequency radiation. This should include an explanation of the way in which the intensity of the radiation falls off with distance from the antenna. If there is major concern from the school or parents, they could ask the network operator to adjust the antenna.

8. The Stewart Group recommend that in making decisions about the siting of base stations, planning authorities should have the power to ensure that the RF fields to which the public will be exposed will be kept to the lowest practical levels that will be commensurate with the telecommunications system operating effectively (paragraph 1.43). The Assembly would expect an efficient mobile network operator to ensure that this recommendation is met already. As our draft Technical Advice Note makes clear, in submitting a planning application an operator should provide the Local Planning Authority with a statement that the proposed development will meet ICNIRP guidelines. Providing this assurance is given, it should not be necessary for a planning authority, in processing an application, to consider the level of the radio frequency field to which the public will be exposed.

9. The Stewart Group recommended the establishment of clearly defined physical exclusion zones around base station antennas, which delineate areas within which exposure guidelines may be exceeded (paragraph 1.44). The Assembly agrees with this. The Group further recommended that the incorporation of exclusion zones should be part of the template of planning protocols that it advocated. Clear exclusion zones should already be in place around all base station antennas to prevent the public from exposure to radiofrequency radiation above ICNIRP guidelines. We therefore do not see any need for this to be considered additionally as part of the planning process.

10. The Stewart Group recommended that operators actively pursue a policy of mast sharing and roaming where practical (paragraph 1.54). The Assembly agrees that mast sharing should be pursued where ever practicable. We already require a network operator to examine the possibility of using an existing mast or structure before seeking to put up any new mast. We expect that any operator should be able to verify that this has been considered. The revised draft Technical Advice Note has more information on mast sharing.

11. The Stewart Group recommended that an Ombudsman be appointed to provide a focus for decisions on the siting of base stations when agreement cannot be reached locally, and on other relevant issues (paragraph 1.62). The Assembly is sympathetic to the objectives of the proposal but feels there are better ways of achieving them, bearing in mind that there is no comparable arrangement in relation to other kinds of development. The role of an Ombudsman would not sit comfortably with the existing appeal process within the planning system.

12. As regards siting, the Assembly's view is that the objectives are met by the planning process. When considering applications for new development local planning authorities consult local people and take their views into account in making decisions. Where an authority refuses an application the developer can appeal to the Assembly. Pre-applications discussions with authorities and with local people also have an important part to play, providing opportunities to explore alternative approaches to the siting and appearance of masts.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

Parc Cathays/Cathays Park  
Caerdydd/Cardiff  
CF10 3NQ

Eich cyf/Your Ref:

Ein cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

2000

Annwyl

**DATBLYGU MASTIAU TELATHREBU (GAN WEITHREDWYR SYSTEMAU'R COD  
TELATHREBU) – PAPUR YMGYNGHOROL**

1. Y llynedd, mewn ymateb i bryder y cyhoedd yngl^yn â'r effaith y gallai technoleg ffonau symudol ei gael ar iechyd, gofynnodd y Llywodraeth i'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol sefydlu'r Gr^wp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol. Bu'r Gr^wp hwn, dan gadeiryddiaeth Syr William Stewart FRS FRSE, yn ystyried pryderon yngl^yn â'r effaith y gallai defnyddio ffonau symudol, gorsafoedd sefydlog a throsglwyddyddion ei gael ar iechyd. Gwnaeth y Gr^wp asesiad trylwyr a chynhwysfawr o'r gwaith ymchwil sydd wedi ei wneud yn barod a chasglwyd amrediad eang o safbwyntiau. Cyhoeddodd y Gr^wp ei adroddiad ar 11 Mai.
2. Yn ei ragair i'r Adroddiad mae Syr William Stewart yn dweud "nad yw'r dystiolaeth ar y cyfan yn awgrymu bod technoleg ffonau symudol yn rhoi iechyd poblogaeth gyffredinol y DG mewn perygl. Mae rhywfaint o dystiolaeth ragarweiniol y gall yr hyn sy'n gysylltiedig â thechnoleg ffonau symudol, mewn rhai achosion, arwain at fân effeithiau biolegol, ond mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain o reidrwydd yn golygu bod iechyd pobl yn dioddef." Mae'r Adroddiad hefyd yn dweud na ellir yn hyderus ddiystyru'r posibilrwydd o niwed, a bod y bylchau mewn gwybodaeth yn dangos bod angen gofal.
3. Yng nghyswllt gorsafoedd sefydlog, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod "y dystiolaeth ar y cyfan yn dangos nad oes perygl cyffredinol i iechyd pobl sy'n byw yn ymyl gorsafoedd sefydlog, a hynny gan fod disgwyl i lefel y cysylltiad â meysydd electromagnetig fod yn llawer llai na'r hyn sydd yn y canllawiau. Er hyn, mae'n bosibl y bydd effeithiau andwyol anuniongyrchol ar eu lles mewn rhai achosion". Argymhellodd y Gr^wp bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio technoleg ffonau symudol, gan fabwysiadu cyfres o gamau penodol, hyd nes y bydd gennym wybodaeth fanylach, ar sylfaen wyddonol gadarn am unrhyw effeithiau ar iechyd.
4. Yn ei ymateb gwreiddiol, a gyhoeddwyd ar 11 Mai, croesawodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) adroddiad Gr^wp Stewart a derbyniodd nifer o'i argymhellion. Yn fwyaf arbennig, derbyniodd y Cynulliad y cysyniad o ragofalon a oedd yn cael ei argymhell yn unol â chyngor yr adroddiad.



BUDDSODDWR MEWN POBL  
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn/Tel: 029 2082 5111  
GTN: 1208  
Llinell Union/Direct Line: 029 2082  
Ffacs/Fax: 029 2082  
Minicom: 029 2082 3280  
E-bost/E-mail:

5. O safbwynt yr agweddau cynllunio, ymatebodd Ysgrifennydd y Cynulliad ar yr Amgylchedd trwy dderbyn y dylai pob mast telathrebu newydd fod yn ddarostyngedig i reolaeth gynllunio lawn ac addawodd ymgynghori'n helaeth yngl^yn ag union gwmpas a manylion y trefniadau newydd. Mae'r papur ymgynghorol sydd ynghlwm yn gofyn am eich barn chi yngl^yn â rhai cynigion i newid y ddeddfwriaeth gynllunio dan Ran 24 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a chyfarwyddyd perthynol. Mae'n ymwneud â Chymru yn unig. Ymgynghorir yngl^yn â chynigion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar wahân.

6. Cyn bo hir, bydd angen gwneud adolygiad ar wahân o'r Cod Ymarfer Gorau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr systemau'r cod.

7. A fydddech gystal at anfon eich ymateb at Peter Roberts yn y cyfeiriad isod cyn [ ] fan bellaf.

Adran Gynllunio  
P2a  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 20823479

Ffacs: 029 20825622

E-bost: Peter.Roberts@Wales.gsi.gov.uk

Mae'r Papur Ymgynghorol ar gael ar y Rhyngrwyd dan [ ]

8. Cymerir yn ganiataol, oni nodir yn wahanol, nad oes gennych unrhyw wrthwynebiad i'r Cynulliad fynegi'ch sylwadau'n gyhoeddus. Gellir cadw ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol, neu grynodedb, yn Llyfrgell y Cynulliad, Caerdydd.

Yn gywir

**KAY S POWELL**

Adran Gynllunio

## **PAPUR YMGYNGHOROL DRAFFT**

### **CYNNWYS**

**Rhan 1 Cefndir**

**Rhan 2 Ymgynghori**

- a. y dadleuon o blaid newid;
- b. cwmpas y cynigion;
- c. cynigion mewn ymateb i argymhelliad Gr<sup>^</sup>wp Stewart y dylid diddymu hawliau datblygu a ganiateir;
- ch. unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r uchod; a
- d. newidiadau eraill i Ran 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir

**Rhan 3 Crynodeb o'r cwestiynau**

**Rhan 4 Cyfarwyddyd a chyngor cynllunio diwygiedig drafft**

**Rhan 5 Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol Interim**

**Rhan 6 Argymhellion eraill Gr<sup>^</sup>wp Stewart yngl<sup>^</sup>yn â gofynion cynllunio ar gyfer gorsafoedd sefydlog.**



## **RHAN 1 - CEFNDIR**

### **Cyd-destun**

1. Mae'r sector telathrebu'n rhan hanfodol o economi'r DG. Ar hyn o bryd mae'n gyfrifol am 3% o'r GDP ac mae gweithredwyr rhwydweithiau'n cyflogi dros 213,000 o bobl. Mae dros 32 miliwn o linellau cyfnewid teleffon ac, yn ychwanegol at hyn, oddeutu 30 miliwn o danysgrifwyr ffonau symudol. Nid yw'r ffigyrau hyn, fodd bynnag, yn rhoi'r darlun cyfan. Mae telathrebu hefyd yn asgwrn cefn i fusnesau. Mae llawer o ddiwydiannau'n gwella'u cysylltiad â'r farchnad trwy ddefnyddio dulliau telathrebu datblygedig, fel y Rhyngryd er enghraifft. Mae busnesau hefyd yn dod yn fwy effeithlon o ganlyniad i ddatblygiadau fel e-bost, gwasanaethau negeseuon byr, cyfathrebu symudol a chynadleddau fideo. Un o amcanion craidd y Llywodraeth yw sicrhau mai'r DG fydd y lle gorau yn y byd i weithio'n electronig erbyn y flwyddyn 2002. Mae cynlluniau fel Cynllun y Gymdeithas Wybodaeth yn brawf o ymroddiad y Llywodraeth yn y maes hwn, ac yn cydnabod y rhan sy'n cael ei chwarae gan y sector cyfathrebu wrth ddarparu sylfaen holl bwysig i fusnesau llwyddiannus. Bydd cyfleoedd pwysig eraill yn dod ar gael o ganlyniad i wasanaethau trydedd genhedlaeth ynghyd â'r gwasanaethau a fydd yn cael eu cynnig ar ôl yr arwerthiant mynediad i radio ddi-wifr sefydlog amrediad eang.

### **Y trefniadau cynllunio presennol**

2. Mae Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, fel y'i newidiwyd, yn caniatáu:

“datblygiad gan neu ar ran gweithredwr systemau'r cod telathrebu i ddibenion systemau telathrebu'r gweithredwr mewn, ar, dros neu o dan dir sy'n cael ei reoli gan y gweithredwr hwnnw neu yn unol â'i drwydded, gan gynnwys -

- (a) gosod, addasu neu adnewyddu unrhyw gyfarpar telathrebu.
- (b) defnyddio tir mewn argyfwng am gyfnod heb fod yn hwy na 6 mis i leoli a gweithredu cyfarpar telathrebu symudol sydd eu hangen er mwyn adnewyddu cyfarpar telathrebu na ellir eu trwsio, gan gynnwys darparu fframweithiau symudol ar y tir i'r diben hwn, neu
- (c) datblygiad sy'n gysylltiedig â blwch cyfarpar radio”  
yn amodol ar nifer o eithriadau penodol ac amodau penodol. Yn fwyaf arbennig, mae angen cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer mastiau sydd dros 15 metr o uchder.

3. Mae rhai mathau o ddatblygiadau'n amodol ar drefniadau cymeradwyaeth ymlaen llaw, sy'n rhoi cyfle i'r awdurdod cynllunio lleol ddweud a yw'n dymuno cymeradwyo manylion y lleoliad ac ymddangosiad y datblygiad. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol 28 diwrnod i ymgymryd â'r broses hon gyda mastiau sydd dan 15 metr o uchder ar adeiladau neu strwythurau eraill. Yn dilyn newidiadau i Ran 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir y llynedd, mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol 42 diwrnod i ymgymryd â'r broses hon gyda mastiau ar y ddaear sydd dan 15 metr o uchder, ac mae'n rhaid i'r gweithredwr osod hysbysiad ar y safle yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r datblygiad arfaethedig. Bwriad hyn yw rhoi cyfle da i bobl gyflwyno sylwadau i'r awdurdod yngl<sup>^</sup>yn â lleoliad ac ymddangosiad y mast arfaethedig, ac anogir Awdurdodau Cynllunio Lleol ar bob cyfrif i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r mater er mwyn rhoi cyfle i'r bobl y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt fynegi eu barn. Os yw'r awdurdod yn meddwl y bydd y datblygiad yn fygythiad difrifol i fwynder, gall wrthod ei gymeradwyo.

4. Mae'r cyfarwyddyd cynllunio cyfredol ar delathrebu i'w weld yng Nghyfarwyddyd Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf (1999); Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, "Telathrebu" (1998); a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/99, "Cynllunio ar gyfer Telathrebu".

## **RHAN 2 - YMGYNGHORI**

### **a. Y Dadleuon o Blaid Newid**

5. Polisi cyffredinol y Cynulliad ar ddatblygiadau telathrebu yw hwyluso lledaeniad rhwydwaith telathrebu datblygedig trwy Gymru, gan warchod yr amgylchedd yr un pryd. Mae'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am warchod iechyd y cyhoedd.

6. Mae'r system bresennol o roi cymeradwyaeth ymlaen llaw o fantais i weithredwyr ffonau symudol gan fod gan Awdurdodau Cynllunio Lleol nifer penodol o ddiwrnodau er mwyn penderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ai peidio ar gyfer datblygiad, a gall gweithredwyr weithio ar sail amserlen bendant. Os nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud penderfyniad cyn y dyddiad cau priodol, mae gan weithredwyr hawl awtomatig i fwrw 'mlaen â'r datblygiad arfaethedig. Cyflwynwyd y camau hyn er mwyn hwyluso datblygiad buan y seilwaith telathrebu, sydd ei angen ar gyfer gofynion cynyddol pob busnes a defnyddiwr preifat.

7. Y brif feirniadaeth ar y system bresennol yw ei bod yn ymddangos yn gymhleth, a heb drefniadau ymgynghorol digonol. Yn fwyaf arbennig, dan y trefniadau 28 diwrnod, nid yw'n statudol ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol na gweithredwyr ymgynghori yngl^yn â'r cynigion, er mai'r polisi yw eu hannog i wneud hynny. Mae pryder nad yw 28 diwrnod yn ddigon o amser i Awdurdod Cynllunio Lleol ymgynghori'n ddigonol â phob un y mae'r datblygiad yn debygol o effeithio arno. Dyma pan, y llynedd, y cyflwynwyd trefniadau newydd ar gyfer mastiau ar y ddaear a oedd yn ymestyn y cyfnod cymeradwyo ymlaen llaw ar gyfer y math hwn o ddatblygiad i 42 diwrnod.

8. Mae adroddiad y Grwp Annibynnol Arbenigol ar Ffonau Symudol (GAAFFA/IEGMP) (adroddiad Stewart) yn awgrymu nad yw ymgynghori â'r cyhoedd yn gweithio'n foddhaol dan y trefniadau cymeradwyo ymlaen llaw, er gwaetha'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud yng nghyswllt mastiau ar y ddaear. Mae hefyd yn awgrymu mai diffyg ymgynghori â'r cyhoedd sydd wrth wraidd llawer o'r cwynion gan bobl sy'n honni bod codi gorsafoedd sefydlog yn golygu eu bod yn colli mwynder. Mae'n awgrymu bod llawer yn teimlo bod y trefniadau cynllunio presennol yn eu cau allan ac yn eu hamddifadu o'u hawliau. Gall y rhwystredigaeth y mae hyn yn ei achosi hefyd gael effaith negyddol ar iechyd a lles pobl. Oherwydd hyn, argymhellodd y Gr^wp bod angen newid y trefniadau cynllunio.

### **b. Cwmpas y cynigion**

9. Mae adroddiad Stewart yn gwneud nifer o argymhellion dan y pennawd “Materion Cynllunio”. Mae Rhan 6 yn egluro beth y bwriedir ei wneud o ganlyniad i’r argymhellion hyn.

10. Dyma brif argymhelliad yr adroddiad yng nghyswllt cynllunio:

“dylid diddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer codi pob gorsaf sefydlog, gan gynnwys y rhai hynny sydd â mastiau dan 15m, a dylai lleoliad pob gorsaf sefydlog newydd fod yn ddarostyngedig i’r broses gynllunio arferol”.

11. Fel y crybwyllwyd uchod, ymatebodd Ysgrifennydd y Cynulliad ar yr Amgylchedd trwy dderbyn y dylai pob mast telathrebu newydd fod yn ddarostyngedig i reolaeth gynllunio lawn ac addawodd ymgynghori’n helaeth yngl^yn ag union gwmpas a manylion y trefniadau newydd. Addawodd y Cynulliad hefyd y byddai’n ymgynghori yngl^yn â chyfarwyddyd perthynol gan gynnwys ystyriaeth o bryderon sy’n ymwneud ag iechyd.

12. Mae adroddiad Stewart yn diffinio “gorsaf sefydlog” fel:

“Cyfleustra sy’n darparu gwasanaeth trosglwyddo a derbyn i systemau radio. Gyda macrogelloedd, mae’r seilwaith yn cynnwys antenae sydd wedi eu gosod ar do – neu fast – a blwch neu gynhwysydd ar gyfer y cyfarpar. Mae microgelloedd a phicogelloedd yn llai, a gellir gosod yr antenae a chyfarpar arall mewn un uned”.

13. Mae’r adroddiad yn diffinio macrogelloedd, microgelloedd a phicogelloedd fel a ganlyn:

"*Macrogelloedd* sy’n darparu’r prif strwythur ar gyfer rhwydwaith yr orsaf sefydlog. Mae gorsafoedd sefydlog ar gyfer macrogelloedd yn rhyddhau degau o wattiau o drydan ac maent yn cyfathrebu â ffonau hyd at tua 35 cilometr (22 milltir) i ffwrdd.

Defnyddir *microgelloedd* i lenwi bylchau a gwella’r prif rwydwaith, yn enwedig lle mae nifer y galwadau’n uchel. Maent wedi eu gosod mewn llefydd fel meysydd awyr, gorsafoedd rheilffordd a chanolfannau siopa. Mae’r gorsafoedd sefydlog ar gyfer microgelloedd yn rhyddhau llai o drydan na’r rhai ar gyfer macrogelloedd ac mae eu cyrhaeddiad wedi ei gyfyngu i ychydig gannoedd o fetrau.

Mae gorsafoedd sefydlog *picogell* yn rhyddhau llai o drydan na gorsafoedd sefydlog microgelloedd (ychydig wattiau) ac maent wedi eu lleoli fel arfer y tu mewn i adeiladau.”

14. Er bod yr argymhelliad yn cyfeirio at ddiddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pob gorsaf sefydlog, nid yw pob gorsaf sefydlog yn rhan o gwmpas gwaith y system gynllunio – er enghraifft, picogelloedd y tu mewn i adeiladau a microgelloedd nad ydynt yn effeithio mewn gwirionedd ar ymddangosiad allanol yr adeilad. Ceir eglurhad manylach isod. Oherwydd yr anawsterau ymarferol, roedd ymateb y Cynulliad yn cyfeirio at bob mast telathrebu.

15. Bwriad y broses gynllunio yw rheoli a hwyluso datblygiad. Eglurir ystyr datblygiad yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gyda rhai eithriadau, mae ‘datblygiad’ yn golygu gwneud gwaith adeiladu, gwaith peirianyddol, cloddio neu waith arall mewn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid o bwys i’r defnydd a wneir o unrhyw adeiladau neu dir arall.

16. Mae **picogelloedd**, fel y mae Stewart yn nodi’n glir, wedi eu lleoli fel arfer y tu mewn i adeiladau. Nid yw gwaith sy’n ymwneud â chynnal, gwella neu addasu unrhyw adeilad, ac sy’n effeithio ar du mewn yr adeilad yn unig, yn gydnaws ag ystyr datblygiad. Deuwn i’r canlyniad, felly, nad oes rheolaeth gynllunio dros osod, addasu neu adnewyddu picogelloedd sydd wedi eu lleoli y tu mewn i adeiladau ac, o ganlyniad, nid yw’r cwestiwn o ddiddymu hawliau datblygu a ganiateir yn codi. Os ydynt wedi eu lleoli y tu allan i’r adeilad ymdrinnir â hwy yn un modd â microgelloedd.

17. Gall **microgelloedd** fod ar ochr allan adeiladau ac o ganlyniad gallant fod yn gydnaws â’r diffiniad o ddatblygiad. Er hyn, nid yw gwaith sy’n ymwneud â chynnal, gwella neu addasu unrhyw adeilad, ac nad yw’n cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad, yn gydnaws ag ystyr datblygiad. O ganlyniad bydd y cwestiwn a fydd gwaith arfaethedig mewn perthynas â microgelloedd yn ddarostyngedig i reolaeth gynllunio yn dibynnu ar y cwestiwn a fyddai’r gwaith yn cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad. Mae Rhan 2ch y papur hwn yn ystyried sut y gellid delio gyda microgelloedd sy’n cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad dan Ran 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.

18. Bydd gorsafoedd sefydlog **macrocell** fel arfer yn gydnaws â’r diffiniad o ddatblygiad. O safbwynt peirianyddol, a bod yn fanwl gywir, gorsafoedd sefydlog yw’r cyfarpar electronig sydd yn yr ystafell beiriannau. Er hyn, mae wedi dod yn arferol disgrifio’r peirianwaith yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys antennae a mast, fel yr orsaf sefydlog. Mae’r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol yn cynnwys trefniadau ar wahân i reoli mastiau, antennae a blychau cyfarpar radio.

19. Er bod adroddiad Stewart yn ymwneud â thechnoleg ffonau symudol yn unig, mae angen i ni ystyried a ddylem ddefnyddio trefniadau diwygiedig ar gyfer pob math o ddatblygiad telathrebu y mae Rhan 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn berthnasol, fel bod yr un rheolau'n berthnasol i bawb o safbwynt cynllunio. Er enghraifft, byddai'n bosibl mewn egwyddor diddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cwmnïau ffonau symudol trwyddedig, a chadw'r trefniadau presennol ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau telathrebu. Ond gallai hyn gael ei ystyried yn annheg ac yn ddryslyd, a byddai'n anodd ei gyfiawnhau i'r cyhoedd. Gellir dadlau bod rhywun y mae mast yn cael ei godi yn agos at ei eiddo yn poeni nid yn gymaint am bwrpas y mast, ond yn hytrach am yr effaith y gallai hyn ei gael ar ei amgylchedd uniongyrchol. *Mae'r Cynulliad o ganlyniad yn cynnig y dylai'r trefniadau sy'n cael eu nodi yn y papur hwn fod yr un mor berthnasol i weithredwyr ffonau symudol ag i weithredwyr cyfarpar telathrebu arall.*

**c. Cynigion mewn ymateb i argymhelliad Gr<sup>wp</sup> Stewart y dylid diddymu hawliau datblygu a ganiateir**

**Mastiau ar y ddaear**

20. Mae Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn cynnwys trefniadau cymeradwyo ymlaen llaw (y trefniadau 42 diwrnod) ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud ag:

“adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu mast (ac eithrio ar adeilad neu strwythur)”.

21. *Cynnigir newid y trefniadau hyn a'i gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio (trwy ddiddymu hawliau datblygu a ganiateir).* Bydd hyn yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddelio gydag adeiladu a gosod unrhyw fastiau telathrebu ar y ddaear yn yr un modd â datblygiadau cyffredinol ac yn amodol ar yr un broses ymgynghorol. Bydd felly'n rhoi mwy o amser i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth lawn i sylwadau a phryderon trigolion lleol ac eraill y bydd y mast arfaethedig yn effeithio arnynt. Bydd felly'n helpu i ymdrin â phryderon Stewart yngl<sup>yn</sup> ag allgáu a cholli hawliau.

22. Fodd bynnag, bydd yn golygu y bydd gweithredwyr yn gorfod aros am fwy o amser cyn i benderfyniad gael ei wneud, a gallai hyn olygu oedi cyn datblygu rhwydweithiau telathrebu. Yn wahanol i gymeradwyaeth ymlaen llaw, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu i'r cynnig fynd rhagddo os nad oes penderfyniad wedi ei wneud erbyn y dyddiad penodedig. Os nad oes penderfyniad wedi ei wneud ar ôl 8 wythnos, gall yr ymgeisydd apelio ar y sail nad oes penderfyniad wedi ei wneud. Ystyrir y goblygiadau ariannol ar gyfer y diwydiant a'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, ynghyd â chostau eraill, yn yr Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol yn Rhan 5 o'r ddogfen ymgynghorol hon.

23. Mae addasu neu adnewyddu mast sydd heb fod dros 15m o uchder yn cael ei ganiatáu ar hyn o bryd, yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw, cyn belled nad yw'r cyfryw waith addasu neu adnewyddu yn arwain at fast sydd dros 15m o uchder. Mewn achosion o'r fath, mae angen cais am ganiatâd cynllunio. Yn achos mastiau sydd dros 15m o uchder, caniateir addasu neu adnewyddu cyfarpar sydd wedi ei osod yn barod ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y cyfarpar, heb gynnwys unrhyw antenae, yn uwch na'r peirianwaith gwreiddiol, a phryd hynny mae angen cais cynllunio. Er mwyn gwneud pethau'n syml ac yn gyson, mae'n gwneud synnwyr ein bod yn cyflwyno trefniadau tebyg ar gyfer mastiau sydd dan 15m o uchder (h.y. byddai angen cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith addasu neu adnewyddu ar unrhyw fast pe bai'r mast newydd yn uwch na'r un gwreiddiol).

24. Gallai hyn, fodd bynnag, fod â goblygiadau o safbwynt cyfleoedd i rannu mast lle mae'n bosibl y byddai angen mast mwy i ddal cyfarpar mwy nag un gweithredwr. Dewis arall, felly, fyddai caniatáu datblygiad o'r fath ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y mast yn uwch na'r mast gwreiddiol, a phryd hynny, byddai'r datblygiad yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw. Gallai'r trefniadau hyn fod yn berthnasol i fast o unrhyw uchder (h.y. i'r mastiau presennol sydd dros neu o dan 15m). Fodd bynnag, byddai'n golygu y gallai datblygwr, er enghraifft, osod mast 20m yn lle mast 10m dan y trefniadau cymeradwyo ymlaen llaw, a hynny, o ganlyniad, heb gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio.

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl y dylid caniatáu gwaith i addasu neu adnewyddu mast sydd wedi ei osod ar y ddaear yn barod ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y mast yn uwch na'r mast gwreiddiol? Os ydych, lle byddai mast yn uwch na'r mast gwreiddiol, a ddylai'r gwaith i'w addasu neu ei adnewyddu gael ei ganiatáu yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw, ynteu a ddylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio?

### **Mastiau ar adeiladau a strwythurau eraill**

25. Mae Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn cynnwys trefniadau cymeradwyo ymlaen llaw (y trefniadau 28 diwrnod) ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud ag :

“adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu mast ar adeilad neu strwythur”.

26. Nid oedd Stewart yn gwahaniaethu rhwng mastiau ar y ddaear a mastiau heb fod ar y ddaear. Roedd yr adroddiad yn dweud mai diffyg ymgynghori â'r cyhoedd sydd wrth wraidd llawer o'r cwynion gan bobl sy'n honni bod codi gorsafoedd sefydlog yn golygu eu bod yn colli mwynder, ac o ganlyniad roedd o'r farn fod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol. Nid yw'r trefniadau presennol sy'n ymwneud â chymeradwyaeth

ymlaen llaw ar gyfer mastiau ar adeiladau yn cynnwys unrhyw ofynion statudol i ymgynghori â'r cyhoedd, er bod gweithredwyr yn cael eu hannog i drafod eu cynigion â'r gymuned leol. Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn teimlo nad yw'r cyfnod o 28 diwrnod yn ddigon o amser i ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd. Gellid dadlau, felly, ei bod yr un mor bwysig ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer mastiau ar adeiladau a strwythurau eraill er mwyn sicrhau digon o amser i ymgynghori'n iawn. Byddai dulliau unffurf o ddelio gyda mastiau, beth bynnag eu maint neu eu lleoliad, hefyd yn gwneud y trefniadau cynllunio'n haws i'w deall. ***Cynigir, felly, y dylai adeiladu a gosod unrhyw fast telathrebu ar adeilad, neu strwythur arall, fod yn amodol ar gais am ganiatâd cynllunio.***

27. Os diddymir hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladu a gosod mastiau ar adeiladau a strwythurau eraill, cyfyd y cwestiwn a ddylid eu cadw ar gyfer addasu neu adnewyddu cyfarpar o'r fath.

28. Ar hyn o bryd, os gosodir mast newydd sydd dros 15m o uchder yn lle mast sy'n bodoli'n barod, mae angen cais am ganiatâd cynllunio. Lle bo mast sydd heb fod dros 15 o uchder yn cael ei osod yn lle mast sy'n bodoli'n barod, gellir ei ganiatáu yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw, neu mae'n bosibl y bydd angen cais am ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn dibynnu ar ei uchder mewn perthynas ag uchder yr adeilad. Un ffordd o ystyried gwaith i addasu neu adnewyddu mastiau sy'n bodoli'n barod fyddai cyflwyno trefniant tebyg i'r un ar gyfer mastiau ar y ddaear. Byddai hyn yn golygu y byddai gwaith i addasu neu adnewyddu mast sydd eisoes wedi ei osod ar adeilad, neu strwythur arall, yn cael ei ganiatáu ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y mast, heb gynnwys unrhyw antenae, yn uwch na'r mast gwreiddiol.

Cwestiwn 2- Ydych chi'n meddwl y dylid caniatáu gwaith i addasu neu adnewyddu mast ar adeilad neu strwythur arall ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y mast yn uwch na'r mast gwreiddiol? Os ydych, lle byddai mast yn uwch na'r mast gwreiddiol, a ddylid caniatáu'r gwaith addasu neu adnewyddu yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw, ynteu a ddylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio?

#### **ch. Unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r uchod**

29. Os byddwn yn newid ein rheoliadau cynllunio ar gyfer mastiau, mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau ôl-ddilydol ar gyfer gwaith datblygu sy'n cael ei wneud ar y cyd â'r gwaith o osod, addasu neu adnewyddu mast.

30. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu blwch cyfarpar radio sydd â'i gyfaint yn fwy na 2.5 metr giwbaidd, a datblygiad sy'n gysylltiedig â blwch cyfarpar radio, yn ddarostyngedig i'r trefniadau 28 diwrnod ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw. Fodd bynnag, os yw'n cael



ei wneud ar y cyd â'r gwaith o adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu mast ar y ddaear, mae'n ddarostyngedig i'r un trefniadau â mast ar y ddaear, sef y trefniadau 42 diwrnod ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw.

31. Trwy newid y gofynion cynllunio ar gyfer mastiau, credwn y byddai'n gwneud synnwyr i ddatblygiad sy'n cael ei wneud ar y cyd fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion cynllunio. Er enghraifft, os oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer mast newydd ar y ddaear, dylai hefyd fod yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y blwch cyfarpar radio cysylltiedig. Byddai hyn yn sicrhau bod yr un trefniadau'n cael eu defnyddio ar gyfer datblygiad sy'n cael ei wneud yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y gofynnid i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi cymeradwyaeth ymlaen llaw i flwch cyfarpar radio cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y mast cysylltiedig.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n medwl y dylai gwaith adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu blwch cyfarpar radio sydd â'i gyfaint yn fwy na 2.5 metr giwbaid, a datblygiad sy'n gysylltiedig â blwch cyfarpar radio, pan fo'n cael ei wneud yr un pryd â'r gwaith o adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu mast, fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion cynllunio â'r mast?

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n meddwl y byddai angen unrhyw newidiadau eraill o ganlyniad i newidiadau i'n rheoliadau cynllunio ar gyfer mastiau?

32. Yn gynharach yn y papur hwn, awgrymasom y gallai microgelloedd weithiau fod yn gydnaws â'r diffiniad o ddatblygiad. Byddai hyn yn dibynnu a fyddai'r gwaith yn cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad. Lle byddai'r gwaith yn gydnaws ag ystyr datblygiad mae'n bosibl y byddai'n ddoeth ystyried microgelloedd yn yr un modd ag antennae ar adeiladau a strwythurau eraill. Caniateir y rhain yn amodol ar nifer o gyfyngiadau sy'n ymwneud â'u uchder a'u lleoliad ar adeilad, a nifer y systemau antennae sydd ar yr adeilad yn barod. Byddai hyn yn sicrhau na chaniateir gosod microgelloedd sy'n cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad heb unrhyw reolyddion. Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol fyddai'n gorfod ystyried a yw gosod microgell arbennig yn gydnaws â'r diffiniad o ddatblygiad mewn unrhyw achos arbennig, ac yn y pen draw, byddai'n fater i'r llysoedd benderfynu yn ei gylch.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n meddwl y dylid delio gyda'r gwaith o osod, addasu neu adnewyddu microgell sy'n cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad yn yr un modd ag antennae yn Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir?

**d. Newidiadau eraill i Ran 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir**

33. Tra rydym yn edrych ar Ran 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, efallai y byddai'n werth ystyried a ddylem wneud unrhyw newidiadau eraill er mwyn delio â meysydd sy'n peri pryder neu ddryswch. Os ydych yn teimlo y byddai unrhyw newidiadau eraill o fudd, mae croeso i chi dynnu sylw atynt mewn ymateb i'r broses ymgynghorol. Byddai'n dda o beth ym mhob achos pe gallech egluro'n glir pa broblem rydych yn ceisio ei datrys, rhoi rhyw syniad pa mor gyffredin yw'r broblem hon, ac amcangyfrif beth fyddai effaith unrhyw newid arfaethedig (o safbwynt cost ychwanegol ac ati).

Cwestiwn 6- Ydych chi am gynnig unrhyw newidiadau eraill i Ran 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir?
---

### **RHAN 3 – CRYNODEB O'R CWESTIYNAU**

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl y dylid caniatáu gwaith i addasu neu adnewyddu mast sydd wedi ei osod ar y ddaear yn barod ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y mast yn uwch na'r mast gwreiddiol? Os ydych, lle byddai mast yn uwch na'r mast gwreiddiol, a ddylai'r gwaith i'w addasu neu ei adnewyddu gael ei ganiatáu yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw, ynteu a ddylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio?

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n meddwl y dylid caniatáu gwaith i addasu neu adnewyddu mast ar adeilad neu strwythur arall ac eithrio lle byddai'r gwaith addasu neu adnewyddu'n golygu bod y mast yn uwch na'r mast gwreiddiol? Os ydych, lle byddai mast yn uwch na'r mast gwreiddiol, a ddylid caniatáu'r gwaith addasu neu adnewyddu yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw, ynteu a ddylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio?

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n meddwl y dylai gwaith adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu blwch cyfarpar radio sydd â'i gyfaint yn fwy na 2.5 metr giwbaid, a datblygiad sy'n gysylltiedig â blwch cyfarpar radio, pan fo'n cael ei wneud yr un pryd â'r gwaith o adeiladu, gosod, addasu neu adnewyddu mast, fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion cynllunio â'r mast?

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n meddwl y byddai angen unrhyw newidiadau eraill o ganlyniad i newidiadau i'n rheoliadau cynllunio ar gyfer mastiau?

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n meddwl y dylid delio gyda'r gwaith o osod, addasu neu adnewyddu microgell sy'n cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad yn yr un modd ag antennae yn Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir?

Cwestiwn 6 – Ydych chi am gynnig unrhyw newidiadau eraill i Ran 24 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir?

#### **RHAN 4 – CYFARWYDDYD A CHYNGOR CYNLLUNIO DIWYGIEDIG DRAFFT**

Cynhwysir polisiau cynllunio defnydd tir yng Nghymru yng Nghyfarwyddyd Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf (Ebrill 1999), ac fe'u hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru). Cynhwysir cyngor yngl^yn â gweithdrefnau mewn cylchlythyrau. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol eu hystyried wrth iddynt baratoi eu cynlluniau datblygu a gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau mewn ceisiadau ac apeliadau cynllunio unigol.

Bydd angen adolygu/diweddaru'r cyfarwyddyd a'r cyngor cynllunio presennol ar gyfer datblygiadau telathrebu. Ceir dogfennau drafft ynghlwm y bwriedir iddynt gymryd lle (i) '8.8 Telathrebu' yng Nghyfarwyddyd Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf, a (ii) Nodyn Cyngor Technegol (Cymru)19, 'Telathrebu'.

**Dogfennau Cyfeiriol**

**(i) POLISI CYNLLUNIO DRAFFT -  
'TELATHREBU'**

Polisi'r Cynulliad yw hwyluso'r gwaith o ddatblygu seilwaith telathrebu amrediad eang datblygedig trwy Gymru gan amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar yr amgylchedd. Mae'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am warchod iechyd y cyhoedd. Mae gan y Cynulliad bolisiau cenedlaethol cydnabyddedig er mwyn amddiffyn cefn gwlad ac ardaloedd trefol – yn enwedig y Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yr Arfordir Treftadaeth ac ardaloedd sydd ag adeiladau o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol. Anogir awdurdodau cynllunio lleol i ymateb yn gadarnhaol i gynigion sy'n ymwneud â datblygiadau telathrebu, gan ystyried y cyngor ar warchod ardaloedd trefol a gwledig. Dylai awdurdodau ystyried unrhyw gyfyngiadau technegol sy'n gysylltiedig â'r lleoliad a'r datblygiad arfaethedig. Dylent hefyd gofio'r manteision amgylcheddol ehangach (er enghraifft, os yw systemau gwybodaeth i yrwyr yn sicrhau gwell defnydd o'r seilwaith ffyrdd presennol, neu os yw defnyddio technoleg telathrebu'n lleihau'r angen i deithio).

[Fersiwn Diwygiedig  
Nodyn Cyngor Technegol  
(Cymru) 19, 'Telathrebu']

Ni ddylai awdurdodau gwestiynu'r angen am y gwasanaeth y mae'r datblygiad arfaethedig i'w gefnogi, na cheisio atal cystadleuaeth rhwng gwahanol weithredwyr. Y nod ddylai cael awdurdodau a gweithredwyr i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r atebion gorau ar gyfer gofynion datblygu. Mae'r Cynulliad yn rhoi pob anogaeth i drafodaethau cyn datblygu rhwng gweithredwyr, awdurdodau, pobl leol a chyrff eraill sydd â diddordeb.

Dylai cynlluniau datblygu nodi polisiau a chynigion ar gyfer lleoli datblygiadau telathrebu, neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn rhoi cyfarwyddyd i ddatblygiadau telathrebu lle gellid cynnig safleoedd ar wahân i'r rhai a nodwyd yn y cynllun.

Dylai'r meini prawf fod yn ddigon hyblyg i dderbyn newidiadau technegol, a gallent fod yn ymwneud â lleoliad ac ymddangosiad cyfarpar, gan gynnwys lleoliad a gofynion tirlunio a fwriadwyd er mwyn lleihau'r effaith ar fwynder yn unol â'r gofynion gweithredol.

Gall ystyriaethau sy'n ymwneud ag iechyd a phryder y cyhoedd fod yn ystyriaethau perthnasol mewn egwyddor wrth benderfynu yngl^yn â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth ymlaen llaw. Y llysoedd yn y pen draw sydd â'r hawl i benderfynu a yw materion o'r fath yn berthnasol mewn achos arbennig. Y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ddylai benderfynu pa mor bwysig yw ystyriaethau o'r fath mewn unrhyw achos arbennig.

Cyngor Bwrdeistref  
Casnewydd v  
Ysgrifennydd Gwladol  
Cymru a Gwasanaethau  
Amgylcheddol Browning  
Ferris Cyf [1998]  
Adroddiadau Cyfreithiol  
Amgylcheddol yn 174 a  
[1998] Cofnod Cyfraith  
Cynllunio 377  
Adroddiad y Gr^wp  
Arbenigol Annibynnol ar  
Ffonau Symudol (Stewart)

Wrth benderfynu pa mor bwysig yw ystyriaethau sy'n ymwneud ag iechyd a phryder y cyhoedd, cynghorir awdurdodau i ystyried adroddiad y Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol (Adroddiad Grŵp Stewart) a'r cyfarwyddyd hwn. Mae'r Cynulliad o'r farn, na ddylai fod angen i awdurdod, wrth brosesu cais, roi mwy o ystyriaeth i effeithiau ar iechyd os yw datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ioneiddio sy'n cael eu nodi yn Argymhelliad Cyngor yr UE ar 12 Gorffennaf 1999 ac sy'n ymwneud â chyfyngu cysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig (fel sy'n cael ei argymhell gan y Grŵp ar sail rhagofalon). Disgwylir i bob gorsaf sefydlog newydd gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn.

Roedd adroddiad y Grŵp yn awgrymu nifer o ragofalon penodol sydd wedi eu derbyn gan y Cynulliad. Nid yw'r adroddiad yn rhoi unrhyw sail i ragofalon sy'n ychwanegol at y rhai sydd wedi eu cynnig yn barod. Ym marn y Cynulliad, ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol weithredu eu polisiau eu hunain mewn perthynas â rhagofalon e.e. gosod gwaharddiad neu ohiriad ar ddatblygiadau telathrebu newydd neu fynnu isafswm pellter rhwng datblygiadau telathrebu newydd a datblygiadau sy'n bodoli'n barod.

Mewn unrhyw ddatblygiad, gall ymyriad radio sylweddol na ellir ei leihau ar gyfarpar trydanol arall o unrhyw fath fod yn ystyriaeth berthnasol o safbwynt cynllunio.

Mae hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol i'r gwaith o osod rhai systemau telathrebu, a gall yr hawliau fod yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol ymlaen llaw i fanylion lleoliad ac ymddangosiad. Lle bo angen caniatâd adeilad rhestredig, mae pob datblygiad telathrebu'n ddarostyngedig i'r trefniadau statudol arferol. Lle bo angen cymeradwyo manylion neu sicrhau caniatâd cynllunio dylid ystyried y canlynol, yn fwyaf arbennig, ar gyfer systemau telathrebu sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio:

(i) i ba raddau y gellir rhannu mastiau radio a thelathrebu. Mae'r Cynulliad yn credu ei bod yn bwysig iawn ceisio sicrhau bod nifer y mastiau a'r safleoedd ar gyfer gosodiadau o'r fath lle bo'n ymarferol cyn lleied ag sy'n bosibl. Bydd rhannu mastiau'n helpu i gyflawni hyn, ynghyd â defnyddio adeiladau sy'n bodoli'n barod ar gyfer gosod antenae newydd; a

(ii) bod soseri'n ymdoddi i'w cefndir. Dylai eu lleoliad sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, eu bod yn cael cyn lleied ag sy'n bosibl o effaith ar fwynder ac ymddangosiad allanol yr adeilad.

Ni ddylid gwrthod caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth i'r manylion ar y sail nad yw polisiau'n rhoi ystyriaeth ddigonol i dwf a nodweddion telathrebu modern.

## **Canslo**

## Dogfennau Cyfeiriol

Mae Adran 8.8 Telathrebu (paragraffau 8.8.1 – 8.8.7) yng Nghyfarwyddyd Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf (Ebrill 1999) yn cael ei chanslo.

### **NODYN CYNGOR TECHNEGOL DIWYGIEDIG DRAFFT (CYMRU), 19 'TELATHREBU'**

#### **CYNNWYS**

#### **CYFLWYNIAD**

#### **SYSTEMAU TELATHREBU**

Telathrebu cyhoeddus  
Darlledu teledu lloeren  
Darlledu daearol  
Derbyn signalau

#### **YMYRIAD RADIO YN SGIL DATBLYGIAD ARFAETHEDIG**

AGWEDDAU TELATHREBU MEWN DATBLYGIADAU  
ERAILL

CANSLO

#### **CYNLLUNIAU DATBLYGU**

ATODIAD – CYFARWYDDYD AR WEITHDREFNAU  
CYMERADWYO YMLAEN LLAW AR GYFER  
DATBLYGIADAU TELATHREBU A GANIATEIR

#### **RHEOLI DATBLYGIADAU**

ANECs 1 – CRYNODEB O'R PRIF HAWLIAU DATBLYGU A  
GANIATEIR

Mân ddatblygiadau telathrebu  
Hawliau datblygu a ganiateir  
Datblygiadau telathrebu mwy  
Trafodaethau cyn datblygu  
Rhannu mast a safle  
Lleoliad a Dyluniad  
Adeiladau Rhestredig a Chofebau  
Rhestredig  
Trefniadau clirio safle radio

ANECs 2 – RHEOLI YMYRIAD RADIO

#### **YSTYRIAETHAU SY'N YMWNEUD AG IECHYD**

Beth yw Meysydd Electromagnetig?  
Effeithiau cysylltiad â meysydd  
electromagnetig ar iechyd  
Grŵp Arbenigol Annibynnol ar  
Ffonau Symudol  
Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch  
Ystyried effeithiau ar iechyd a dirnadaeth y  
cyhoedd o berygl

## CYFLWYNIAD

1. Dylid darllen y Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) hwn ochr yn ochr â'r [Polisi Cynllunio, 'Telathrebu']. Dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ystyried Nodiadau Cyngor Technegol a cylchlythyrau wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a byddant yn cael eu hystyried gan y Cynulliad a'i Arolygwyr wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n cael eu galw i mewn ac apeliadau.
2. Mae'r dogfennau sy'n cael eu rhestru yn y golofn Dogfennau Cyfeiriol ar yr ochr yn cynnwys gwybodaeth a ddylai gael ei darllen ochr yn ochr â'r Nodyn Cyngor Technegol.
3. Mae'r cyngor hwn yn ystyried twf y diwydiant a thechnoleg, y galw cymdeithasol ac economaidd newydd am gyfathrebu, a pholisïau amgylcheddol y Cynulliad. Dylid darllen cyfeiriadau at delathrebu trwy'r ddogfen gan gymryd eu bod yn cynnwys pob math o gyfathrebu trwy geblau a gwifrau trydanol ac optegol a signalau radio (pa un ai'n signalau daearol neu'n signalau o loeren), cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd oni nodir yn wahanol.

## SYSTEMAU TELATHREBU

4. Mae'r paragraffau isod yn disgrifio'r prif systemau telathrebu a'r datblygiadau ffisegol sy'n gysylltiedig â hwy.

### Telathrebu cyhoeddus

5. Adwaenir y gweithredwyr trwyddedig hynny sydd â'r hawliau a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y "Cod Telathrebu" fel gweithredwyr systemau'r cod ac maent yn defnyddio systemau amrywiol i ddarparu signalau i'r cwsmer.
6. Mae gan bob system, pa un a yw'n cael ei gweithredu dan y Cod Telathrebu ai peidio, wahanol fathau o antenae, anghenion lleoliad a nodweddion eraill, y mae angen i awdurdodau cynllunio eu hystyried wrth gyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio a rheoli datblygiadau. Y prif systemau yw:

#### i. Cysylltiad Sefydlog

7. Mae systemau Cysylltiad Sefydlog yn gweithio trwy gysylltiadau cebl (gwifren gopr neu ffibr optegol), a signalau radio sy'n cael eu trosglwyddo trwy loerennau neu antenae llinell welediad.
8. Gall y prif rwydweithiau hefyd ddefnyddio cysylltiadau radio sefydlog yn ogystal â cheblau o dan y ddaear neu uwchben y ddaear. Mae angen darparu gorsafodd trosglwyddo radio ar gyfer y cysylltiadau radio hyn. Mae gorsaf fel arfer yn cynnwys adeilad bach ar gyfer y cyfarpar radio a th^wr sydd fel arfer hyd at 60 metr o uchder ar gyfer nifer o antenae.

## Dogfennau Cyfeiriol

[Polisi Cynllunio Drafft,  
'Telathrebu']

Deddf Telathrebu 1984,  
Atodlen 2



**Dogfennau Cyfeiriol**

Gellir gosod antenae hefyd ar adeiladau neu strwythurau eraill. “Soseri” crynion yw antenae cysylltiad radio sefydlog, ac maent fel arfer yn mesur 0.3, 0.6 ac 1.2 metr ar draws.

9. Mae'n rhaid i'r cysylltiadau radio fod yn glir, a heb rwystrau fel bryniau, adeiladau, coed neu wrthrychau symudol mawr. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â chrymedd y ddaear a gwahanol amgylchiadau atmosfferig, yn effeithio ar ofynion antenae o safbwynt lleoliad ac uchder. Yn aml iawn, er mwyn trosglwyddo'n bell, neu osgoi rhwystrau, mae angen gorsafodded radio ailadrodd canolraddol. Mae arnynt angen o leiaf ddau antena, un i dderbyn y signal a'r llall i'w drosglwyddo; mae'n bosibl y bydd angen antenae eraill ar gyfer systemau cryfach neu ddefnydd wrth gefn.

10. Mae cysylltiadau radio trwy loeren hefyd yn fath o gyfathrebu cysylltiad sefydlog. Mae un antena'n pwyntio tuag at loeren sy'n cylchdroi uwchben y ddaear, neu, yn achos “gorsaf lloerennau ar y ddaear”, nifer o antenae sy'n pwyntio at nifer o loerennau.

11. Ni ddylid cymysgu rhwng yr antenae a ddefnyddir i drosglwyddo a derbyn signalau radio trwy loeren ac antenae teledu lloeren gan fod eu swyddogaeth yn bur wahanol er eu bod yn edrych yn debyg.

Mae darlledwyr teledu'n defnyddio cysylltiadau sefydlog i ddsbarthu rhaglenni a chysylltu â stiwdios. Enghraifft arall o'r system cysylltiad sefydlog yw'r rhwydwaith ceblau lleol, a all gyflenwi gwasanaeth gyda sawl sianel o ddeunydd teledu cenedlaethol a lleol, ffilmiau, gwybodaeth, data rhyngweithiol a theleffoni llais i danysgrifwyr. Gosodir y cebl o dan y ddaear ac mae angen gosod blychau cyswllt bach fel arfer bob hyn a hyn, tra defnyddir soser loeren fawr er mwyn derbyn lluniau teledu ar gyfer canolfan reoli teledu cêbl.

**Mynediad Radio-Leoliad**

13. Is-set o gysylltiadau sefydlog yw Mynediad Radio-Leoliad (RFA). Yn hytrach na chysylltu eiddo preswyl a masnachol â'r rhwydwaith dargyfeirio cyhoeddus trwy wifrau, fel ceblau copr, mae'n bosibl defnyddio radio. Gall gweithredwyr RFA ddarparu gwasanaethau cyfraddau data uchel yn ogystal â gwasanaethau llais syml. Mae nifer o weithredwyr yn bodoli'n barod a bydd y Llywodraeth yn gwerthu sbectrwm ar gyfer gwasanaethau amrediad eang sy'n cael eu darparu trwy RFA yn ddiweddarach eleni. Mae gweithredwyr RFA yn darparu cystadleuaeth ychwanegol bwysig yn y ddolen leol. Mae arnynt angen llinell welediad i'r eiddo sy'n cael ei wasanaethu.

**ii. Cyfathrebu Symudol y Genhedlaeth Gyntaf (Analog)**

14. Mae llai a llai o ddefnydd yn cael ei wneud o'r rhwydweithiau cellog analog gwreiddiol, fel y maent yn cael eu disodli gan y GSM (gweler isod). Nid yw'r cyfarwyddyd hwn felly'n ymdrin â hwy, gan y bydd y dechnoleg wedi ei disodli cyn bo hir.

### iii. Cyfathrebu Symudol yr Ail Genhedlaeth (System Fyd-eang ar gyfer Cyfathrebu Symudol, GSM)

15. Systemau GSM Digidol Cellog yw'r genhedlaeth gyfredol ar gyfer rhwydweithiau symudol a gyflwynwyd yn y DG ar ddechrau'r 1990au. Maent yn darparu ar gyfer defnyddwyr ffonau symudol, mewn cerbydau neu yn rhywle arall, ac yn cyrraedd arwynebedd sy'n cynnwys dros 98% o boblogaeth y DG. Darperir y system gelloedd trwy rwydwaith o systemau safle radio, pob un yn gweithio mewn ardal arbennig (cell).

16. Mae'r systemau hyn yn cael eu harwain gan y galw; mae cynnydd yn y defnydd o ffonau symudol wedi golygu bod gweithredwyr yn ehangu eu rhwydweithiau'n barhaus er mwyn cwrdd â gofynion y cwsmer mewn perthynas â gwasanaeth ac ansawdd. Yr anghenion mwyaf ar gyfer safleoedd gorsafoedd sefydlog fel arfer yw ardaloedd adeiledig lle mae'r dwysedd mwyaf o ddefnyddwyr ffonau symudol ac o fewn milltir neu ddwy o'r prif ffyrdd, lle mae'r galw mwyaf am y rhwydwaith.

17. Mae maint pob cell wedi ei gynllunio gan weithredwyr y rhwydwaith. Mae'n cael ei bennu gan nifer o ffactorau, ond yn fwyaf arbennig gan nifer y tanysgrifwyr y disgwylir y bydd arnynt angen defnyddio'r system yn ystod y cyfnod brig. Mewn ardaloedd lle mae mwy o ddefnydd nag y gall y rhwydwaith ddygymod ag ef gellir ehangu'r ddarpariaeth naill ai trwy gyflwyno safleoedd newydd (macro neu ficrogelloedd), neu trwy rannu celloedd presennol, a thrwy hynny ddyblu'r ddarpariaeth. Er mwyn rhannu celloedd mae angen codi antenae ychwanegol ar safle'r orsaf sefydlog.

18. Mae lleoliad erialau trosglwyddo'n bwysig oherwydd bydd signalau o un gell yn ymyrryd ar gelloedd cyfagos sydd ar yr un amledd. Er mwyn osgoi manau dall o ganlyniad i adeiladau a bryniau, rhaid i antenae fel arfer gael eu gosod mewn lle uchel. Mewn ardaloedd trefol mae'n aml yn well gosod antenae ar adeiladau sy'n bodoli'n barod.

19. Mae gweithredwyr celloedd yn defnyddio math o antenae sydd â sawl polyn fertigol, tua 1-3m o hyd, ambell waith gydag adlewyrchyddion ynghlwm wrthynt. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen gosod nifer o antenae microdon daearol bychain (0.3m-1.2m) ar y peirianwaith antenae cellog i ddarparu cysylltiadau o'r orsaf sefydlog i'r gyfnewidfa, er enghraifft. Mae cyfaint y blwch ar gyfer y cyfarpar cysylltiedig fel arfer rhwng 4 a 35 metr giwbaid.

Mae pedwar rhwydwaith cenedlaethol, dau'n gweithio ar 900 MHz a dau ar 1800MHz.

### iv. Ffonau Symudol y Drydedd Genhedlaeth ("3G" neu "UMTS" System Delathrebu Symudol Fyd-eang)

21. Mae 3G yn disgrifio set o safonau digidol ar gyfer telathrebu symudol yn y dyfodol. Mae UMTS yn un o'r safonau 3G. Bydd y safonau hyn yn galluogi defnyddwyr systemau cyfathrebu symudol i ddefnyddio

## Dogfennau Cyfeiriol

gwell gwasanaethau trwy gyfraddau data uwch na GSM. Yn Ebrill 2000 gwerthodd y Llywodraeth bum trwydded newydd i weithredwyr cyfathrebu symudol y drydedd genhedlaeth. Bydd pob gweithredwr yn cael trwydded i weithredu rhwydwaith 3G cenedlaethol. Mae trwydded pob gweithredwr 3G yn nodi ei bod yn ofynnol iddynt ddatblygu rhwydwaith sy'n darparu ar gyfer 80% o'r boblogaeth erbyn 2007.

22. Pedwar o'r gweithredwyr 3G yw gweithredwyr GSM y DG a disgwylir y byddant yn gallu aildefnyddio'u seilwaith presennol mewn sawl achos ar gyfer rhai o ofynion eu rhwydwaith newydd 3G. Mae angen i'r pumed gweithredwr ddechrau o'r dechrau gyda'i rwydwaith 3G. Mae'n bosibl y disgwylir iddynt ddefnyddio strwythurau sy'n bodoli'n barod (gan gynnwys y rhai hynny sy'n eiddo i weithredwyr eraill a sefydliadau rheoli safleoedd radio) ond mae'n debyg hefyd y bydd angen iddynt ddatblygu cryn dipyn o safleoedd newydd.

### Darlledu Teledu Lloeren

23. Ym maes darlledu, gwelwyd twf sylweddol yn yr amrediad a'r defnydd a wneir o deledu lloeren. Ar hyn o bryd mae un darparwr gwasanaeth mawr yn y Deyrnas Gyfunol. Mae llawer o ddarlledwyr eraill yn trosglwyddo signalau o'r DG i wledydd eraill yn Ewrop. Mae signalau teledu'n cael eu hanelu'n syth-i'r-cartref o'r lloeren i antenae derbyn unigol, neu soseri lloeren fel y mae'r rhai mwyaf adnabyddus yn cael eu hadwaen. Mae'n rhaid i antenae fod yn llinell welediad uniongyrchol y lloeren, a bron bob amser mae'n rhaid iddynt gael eu gosod yn yr awyr agored. Mae'r lloerennau ar gyfer y gwahanol wasanaethau mewn safleoedd cylchdroi gwahanol, ac mae'n rhaid iddynt gael eu derbyn gan antenae ar wahân, oni ddefnyddir antenae y gellir eu llywio neu antenae arbenigol eraill.

24. Bydd lleoliad soser lloeren ar adeilad felly'n dibynnu ar gyfeiriad y lloeren. Bydd maint y soser yn dibynnu ar y dechnoleg a ddefnyddir, cryfder y signal a'r posibilrwydd o ymyriad gan drosglwyddiadau o loerennau eraill a allai fod wedi eu lleoli gerllaw. Mewn sawl achos, gellir defnyddio soseri 60cm neu lai, ond mae'n bosibl y bydd angen soseri mwy, 80 neu 90cm, yn rhannau mwy gorllewinol a gogleddol y wlad ac ar gyfer gwasanaethau teledu lloeren arbennig, fel y rhai hynny sy'n cael eu darlledu o wledydd Ewropeaidd eraill. Mae'n bosibl y bydd angen soser fwy hefyd lle mae'n cyflenwi rhaglenni i fwy nag un teledu. Mae datblygiadau newydd mewn technoleg antenae yn cyflwyno mathau newydd o antenae gyda gwahanol nodweddion gweledol i'r farchnad.

25. Mae antenae ar gyfer derbyn signalau darlledu lloeren digidol at ei gilydd yn llawer llai ac yn fwy disylw na'u rhagflaenwyr analog.

### Darlledu Daearyl

26. Mae darlledu daearol digidol yn defnyddio erialau teledu sydd ar doeau tai yn barod er mwyn derbyn signalau i gartrefi.

### Derbyn Signalau

**Dogfennau Cyfeiriol**

27. Mae trwyddedigion sy'n darparu gwasanaeth darlledu a gwasanaethau telathrebu eraill yn dibynnu ar y cyfan ar signal radio da i'w derbynyddion bwriedig. Er enghraifft, er mwyn cael derbyniad teledu da mae angen llinell welediad glir o'r trosglwyddydd i'r erial dderbyn, yn yr ardal y bwriedir i'r trosglwyddydd ddarparu gwasanaeth. Er na all y darlledwyr warantu derbyniad da i bawb, mae amodau eu trwydded yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth o ansawdd da; mae'n rhaid iddynt sicrhau a chynnal signal boddhaol ym mhob ardal ar gyfer derbyniad ar gyfarpar sy'n cael eu hargymell (gweler Anecs 2). Gall codi adeiladau newydd neu strwythurau eraill, fel tyrbinau gwynt, amharu ar wasanaeth darlledu a gwasanaethau telathrebu eraill, a gall y posibilrwydd o ymyriad o'r fath fod yn ystyriaeth berthnasol o safbwynt cynllunio (gweler paragraff 76 isod).

**CYNLLUNIAU DATBLYGU**

28. Dylai cynlluniau datblygu ddarparu ar gyfer datblygiadau telathrebu trwy ystyried gofynion strategol rhwydweithiau telathrebu. Dylai polisiâu cynlluniau datblygu ystyried:

- agweddau polisi cyffredinol y Cynulliad tuag at gynllunio ar gyfer datblygiadau telathrebu, sy'n cael eu nodi yn [Polisi Cynllunio, 'Telathrebu'];
- gofynion Deddf Telathrebu 1984;
- y cyfyngiadau sy'n deillio o natur y rhwydwaith telathrebu a'r dechnoleg;
- canlyniadau ymgynghori cynnar rhwng awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu fel bod modd ystyried gofynion rhwydweithiau telathrebu a phennu trywydd a graddoli datblygiadau rhwydwaith; a
- yr angen i warchod yr amgylcheddau gorau a mwyaf sensitif.

29. Gall cynlluniau datblygu neilltuo safleoedd arbennig ar gyfer datblygiadau telathrebu mawr fel mastiau tal er mwyn annog rhannu safleoedd a chynnwys polisiâu ar:

- leoliad ac ymddangosiad allanol cyfarpar, gan gynnwys unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig â lleoliad a thirlunio a fwriadwyd er mwyn lleihau effaith cyfarpar o'r fath ar fwynder, heb fod yn rhwystr i effeithlonrwydd gweithredol;
- yr amgylchiadau y gall awdurdodau cynllunio lleol:

**Dogfennau Cyfeiriol**

- i. benderfynu bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer manylion y lleoliad ac ymddangosiad rhai datblygiadau telathrebu (gweler paragraff 35 isod);
- ii. ymyrryd er mwyn ceisio ail-leoli antena sydd wedi ei osod dan hawliau datblygu a ganiateir, er mwyn lleihau'r effaith y mae'n ei gael ar ymddangosiad allanol adeilad (gweler paragraff 34 isod).

30. Gall y cyfiawnhad rhesymegol sy'n gysylltiedig â'r polisiau hyn gynnwys meini prawf sy'n cael eu defnyddio er mwyn delio gyda rhai datblygiadau telathrebu fel *de minimis*.

**RHEOLI DATBLYGIAD****Mân Ddatblygiadau Telathrebu**

31. Mae'n bosibl na fydd rhai mân weithgareddau neu newid i ddefnydd tir yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau sydd angen caniatâd cynllunio. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd nifer o'r systemau antenae llai'n dod dan yr egwyddor arferol o *de minimis*; neu mae'n bosibl nad ydynt yn cael effaith wirioneddol ar ymddangosiad allanol yr adeilad y maent yn cael eu gosod arno, ac o ganlyniad, nad ydynt yn gydnaws â'r diffiniad cyfreithiol o ddatblygiad. Mae'r rhan fwyaf o erialau teledu traddodiadol a'u gosodiadau neu eu polion wedi cael eu trin fel hyn ers blynyddoedd, a dylid dal i ddefnyddio'r dull hwn wrth ystyried cyfarpar telathrebu bach yn gyffredinol (pwy bynnag sy'n eu gosod).

**Hawliau Datblygu a Ganiateir**

32. Mae llawer o'r mân ddatblygiadau telathrebu yn ddatblygiadau a ganiateir (gweler Anecs 1 am fanylion). Fodd bynnag, mae'n bosibl bod amgylchiadau lle gallai ymarfer hawl datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol ar fwynder. Lle bo awdurdod cynllunio lleol yn credu bod angen diddymu'r hawl, gall roi Cyfarwyddyd.

Gorchymyn Cynllunio  
Gwlad a Thref (Datblygu  
Cyffredinol a Ganiateir)  
1995 (GPDO) Rhif  
1995/418, fel y'i  
newidiwyd; GPDO, Erthygl  
4

33. Ni ddylid diddymu hawliau datblygu a ganiateir onid oes bygythiad gwirioneddol a phenodol i'r ardal y mae'r datblygiad i gael ei wneud ynddi. Bydd cyfarwyddiadau sy'n cael eu gwneud yng nghyswllt antenae lloeren ar dai annedd yn dod i rym ar unwaith ond yn dod i ben ar ôl chwe mis o'r dyddiad y cawsant eu gwneud, oni bai eu bod wedi eu gwrthod neu eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Bydd ar gyfarwyddyd sy'n cael ei wneud yng nghyswllt cyfarpar gweithredwyr systemau'r cod a datblygiadau telathrebu eraill angen cymeradwyaeth lawn y Cynulliad. Ni fydd cyfarwyddiadau cyffredinol sy'n anelu at bennu rheolyddion cynllunio llawn ar gyfer amrediad eang o ddatblygiadau telathrebu yn cael eu cymeradwyo fel arfer. Ond lle bo'n ymddangos bod lleoliad gwledig neu drefol arbennig yn debygol o ddenu datblygiadau

GPDO, Erthygl 5(4)

GPDO, Erthygl 5(1)

**Dogfennau Cyfeiriol**

telathrebu ymwithiol neu amhriodol a fyddai'n fygythiad difrifol i fwynder, bydd y Cynulliad yn dangos cydymdeimlad wrth ystyried cyfarwyddiadau a gyflwynir i gael eu cymeradwyo.

34. Mae cyfleoedd hefyd i awdurdod cynllunio lleol ymyrryd, lle bo'n briodol, ym manylion rhai datblygiadau a ganiateir, heb fynd cyn belled â diddymu'r hawl ei hun. Yn gyntaf, un o amodau'r hawl datblygu a ganiateir i osod antenna ar adeilad yw bod yr antenna'n cael ei osod, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, mewn modd sy'n lleihau'r effaith y mae'n ei gael ar ymddangosiad allanol yr adeilad y mae'n cael ei osod arno. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn nad yw gofynion technegol a gofynion diogelwch wedi eu hystyried wrth osod yr antenna (er enghraifft, yn achos antenna teledu lloeren, gofynion llinell welediad ac ansawdd llun), gall roi hysbysiad torri amodau a'i gwneud yn ofynnol i'r antenna gael ei ail-leoli. Y rhesymau dros hysbysiad o'r fath fyddai nad yw'r ymgeisydd wedi cydymffurfio ag amod yr hawl datblygu a ganiateir ac o ganlyniad nad yw'r datblygiad ei hun yn meddu ar hawliau datblygu a ganiateir. Nid yw'r cyfyngiad hwn ar yr hawl datblygu a ganiateir yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol ddiddymu'r hawl i osod yr antenna, dim ond er mwyn rheoli manylion y gosodiad; o ganlyniad, mewn unrhyw ymyriad o'r fath, dylai'r awdurdod awgrymu lle byddai'n well ganddo weld yr antenae'n cael eu gosod er mwyn lleihau eu heffaith.

35. Yn ail, mae'n rhaid i weithredwr system y cod wneud cais i'r awdurdod cynllunio, cyn gosod rhai cyfarpar telathrebu dan hawliau datblygu a ganiateir, er mwyn i'r awdurdod benderfynu a oes angen iddo gymeradwyo manylion sy'n ymwneud â lleoliad ac ymddangosiad y datblygiad. Bydd cais o'r fath yn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried lleoliad ac ymddangosiad y datblygiad arfaethedig. Ceir cyfarwyddyd ynghylch gweithrediad y trefniadau ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw yn Atodiad A. Bydd cynnwys polisiâu clir mewn cynlluniau datblygu yn helpu awdurdodau i wneud penderfyniadau cyflym ar sail ffeithiau wrth ystyried y ceisiadau hyn.

**Datblygiadau Telathrebu Mwy**

36. Mewn achosion lle mae angen ceisiadau cynllunio llawn ar gyfer datblygiadau telathrebu, gall amddiffyn rhag niwed gweledol a'r goblygiadau o safbwynt datblygu rhwydwaith yn y dyfodol arwain at wrthdaro ymddangosiadol gyda pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol sydd wedi eu sefydlu. Yn aml iawn mae angen i fastiau ac antenae fod o uchder arbennig, dyweder 20m, er mwyn i signalau allu pasio heibio i goed ac adeiladwaith trefol. Mae'n bosibl felly y bydd ar ddatblygiadau telathrebu angen lleoliadau arbennig er mwyn gweithio'n iawn. Ond mae'n bosibl mai'r lleoliadau hyn yw'r union lleoliadau amlwg sy'n cynnig her i bolisïau o safbwynt gwarchod tirweddau arbennig a sicrhau ansawdd mewn ardaloedd trefol.

37. Mae angen i awdurdodau cynllunio fod yn effro i anghenion arbennig a phroblemau technegol datblygiadau telathrebu. Dylid penderfynu yngl^yn â phob cais yn unol â'r cynllun datblygu onid yw ystyriaethau

perthnasol yn nodi'n wahanol. Mae ystyriaethau perthnasol yn cynnwys pwysigrwydd y datblygiad arfaethedig fel rhan o rwydwaith cenedlaethol. Mewn sawl achos, mae'r polisiâu presennol wedi eu llunio yng nghydestun adeiladau confensiynol a defnydd tir, ac mae'n bosibl nad ydynt yn addas i ddelio gyda chyfarpar telathrebu neu anghenion gweithredol eraill.

### Trafodaethau Cyn Datblygu

38. Un o amodau trwyddedau telathrebu yw bod y gweithredwr y tro cyntaf y mae'n rhoi hysbysiad o gynnig datblygu i awdurdod cynllunio lleol, yn rhoi manylion ysgrifenedig i'r awdurdod am y gwaith datblygu y mae'n gobeithio ei wneud yn ardal yr awdurdod. Mae'r Cynulliad yn annog gweithredwyr ac awdurdodau cynllunio lleol i ymgynghori â'i gilydd yn fanwl ar bob cyfrif cyn gwneud unrhyw gais i osod cyfarpar telathrebu i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd hyn yn gyfle i drafod cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol ac i edrych ar bosibiliadau eraill, yn enwedig o safbwynt lleoliad ac ymddangosiad y datblygiad. Dylai trafodaethau ar gynnig datblygu penodol fod wedi eu gosod yng nghydestun strategaeth y gweithredwr ar gyfer datblygiadau telathrebu yn yr ardal. Gall trafodaethau cyn gwneud cais fod yn ddefnyddiol trwy feithrin cysylltiad â chyrff eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad arfaethedig, fel grwpiau preswyl, cynghorau cymuned neu gyrff mwynderau. Mae'n bwysig iawn bod gweithredwyr a'r awdurdod cynllunio lleol yn trafod gyda rhieni ac ysgolion os oes gorsafodded sefydlog i'w gosod mewn ysgolion neu'n agos at ysgolion neu lefydd sensitif eraill cyn cyflwyno'r ceisiadau er mwyn delio gydag agweddau arbennig sy'n peri pryder. Lle bwriedir ymgymryd â datblygiad telathrebu sy'n debygol o effeithio ar ardaloedd dynodedig, dylai Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu Cadw fod yn rhan o'r trafodaethau. Gall trafodaethau o'r fath nodi gwrthdaro posibl mewn diddordeb yn gynnar. Yn aml iawn gellir osgoi ymchwiliadau cyhoeddus costus ac oedi trwy gytuno, er enghraifft ar newidiadau cymharol fychan mewn strategaethau llinell a'r dewis o safle. Anogir awdurdodau cynllunio lleol ar bob cyfrif i sicrhau bod staff sy'n delio gyda pholisi telathrebu a rheoli datblygu yn gyfarwydd â'r dechnoleg, ac i ystyried dynodi swyddog sy'n arbenigo mewn telathrebu.

39. Mae'n bosibl y gall awdurdodau leihau nifer y problemau cynllunio yng nghyswllt datblygiadau telathrebu sy'n wynebu ymgeiswyr a'r gymuned trwy helpu ymgeiswyr i nodi safleoedd sy'n bodoli'n barod a safleoedd posibl, trwy sicrhau bod safleoedd addas sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ar gael i ddefnyddwyr a thrwy annog eraill i wneud yr un fath gyda'u heiddo hwy.

### Rhannu Mastiau a Safleoedd

40. Mae'n rhesymol i awdurdodau lleol ddisgwyl i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fastiau newydd ddangos tystiolaeth eu bod wedi edrych ar y posibilrwydd o osod antenae ar adeilad, mast neu strwythur arall sy'n bodoli'n barod. Mae amodau yn nhrwyddedau gweithredwyr y cod yn nodi y dylai ymgeiswyr edrych ar y posibilrwydd o rannu safle radio sy'n bodoli'n barod. Dylid cyflwyno'r dystiolaeth hon gyda'r cais cynllunio i'r

**Dogfennau Cyfeiriol**

awdurdod cynllunio lleol.

41. Os nad yw'r dystiolaeth yngl^yn ag ystyried safleoedd eraill posibl o'r fath yn cael ei hystyried yn foddhaol, mae'n bosibl y gellid cyfiawnhau i'r awdurdod cynllunio, neu'r Cynulliad gydag apêl, wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod lleol roi rhesymau clir pam ei fod yn teimlo nad yw'r dystiolaeth sydd ger ei fron yn foddhaol. Yr awdurdod cynllunio lleol, yn y lle cyntaf, sydd i benderfynu a yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyswllt hwn yn foddhaol. Er hyn, dylai awdurdod ystyried y cyfyngiadau technegol ar ddatblygiad rhwydwaith cyn gwneud unrhyw benderfyniad yngl^yn â'r cais a gyflwynwyd iddo.

42. Wrth ystyried safleoedd eraill posibl, dylai awdurdod ystyried yr effaith y gallai datblygiad ar y safleoedd hyn ei gael ar yr amgylchedd lleol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle byddai defnyddio safle arall yn golygu ailddatblygu mast sy'n bodoli'n barod er mwyn ei ddefnyddio ar y cyd. Mewn rhai amgylchiadau gallai rhannu'r defnydd o fast sy'n bodoli'n barod olygu bod angen gwneud y mast yn uwch, ac o ganlyniad ei wneud yn fwy amlwg. Gan ddibynnu ar nodweddion y lleoliad, gallai rhannu safle fod yn fwy priodol na rhannu mast. Gallai ail osodiad wedi ei leoli gydag ochr y prif osodiad neu y tu ôl iddo, er enghraifft, gynnig ateb mwy buddiol o safbwynt cynllunio ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried yr effaith derfynol y byddai nifer o fastiau'n rhannu safle'n ei gael ar yr amgylchedd. Mewn achosion eraill, gallai ystyriaethau technegol a phwyntiau sy'n ymwneud â dyluniad awgrymu safle newydd. Dylai awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr chwilio gyda'i gilydd am yr atebion gorau o safbwynt yr amgylchedd a'r rhwydwaith gan ystyried pob achos yn ôl ei haeddiant.

43. Lle cytunir y byddai'n ddymunol rhannu mast neu safle arbennig yn y dyfodol, bydd awdurdodau'n dymuno bodloni eu hunain bod lle ar y safle ar gyfer unrhyw gyfarpar ychwanegol y byddai eu hangen.

44. Lle bo'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried, oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â mwynder gweledol, y byddai'n brafach pe bai'r mastiau sydd i'w datblygu mewn ardal yn cael eu cyfyngu i un safle, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod am drafod gyda'r gweithredwyr a'r trefeddiannwr perthnasol pa mor ymarferol fyddai gwneud ymrwymiad cynllunio er mwyn darparu amod cyfrwymol y gellir ei orfodi yn nodi y byddai'r mast ar gael i'w rannu. Dylai unrhyw drafodaethau o'r fath ystyried y cyfyngiadau technegol a gweithredol ar ddefnyddio safle arbennig gan weithredwr.

45. Mewn unrhyw achos lle mae anghydfod yngl^yn â rhannu mast neu safle sy'n bodoli'n barod, gall y naill ochr neu'r llall ofyn i'r Prif Gyfarwyddwr Telathrebu ddatrys y mater. Os yw'r Prif Gyfarwyddwr o'r farn bod hynny'n briodol, gall orchymyn i'r gweithredwyr cyfathrebu perthnasol rannu. Nid yw'r hawliau sydd yn y Rheoliadau, fodd bynnag, yn ymwneud â thrydydd parti, fel perchennog tir, yn gwrthod caniatáu defnyddio mast ar y cyd.

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, Adran 106

Rheoliadau Telathrebu (Cydgysylltiad) 1997  
Datganiad 6 Tachwedd 1998  
i'r Prif Gyfarwyddwr  
Telathrebu ar gael ar  
[www.oftel.gov.uk/competition/mast1198.htm](http://www.oftel.gov.uk/competition/mast1198.htm) neu gan yr  
Uned Ymchwil a



**Dogfennau Cyfeiriol**  
 Gwybodaeth, OFTEL, 50  
 Ludgate Hill, Llundain,  
 EC4M 7JJ (ffôn 020  
 86348761)

46. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod wedi ffurfio barn yn gynharach, yn enwedig wrth iddynt baratoi cynllun datblygu, yngl^yn â safleoedd yn eu hardal a allai fod yn addas ar gyfer datblygiadau telathrebu. Gallai'r rhain gynnwys mastiau, adeiladau a strwythurau eraill sy'n bodoli'n barod y gellid gosod antenae arnynt a safleoedd lle gallai mastiau newydd fod yn dderbyniol. Anogir awdurdodau ar bob cyfrif i gadw rhestr o fastiau a strwythurau eraill y gellid gosod cyfarpar ynghlwm wrthynt ac i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar ddarn o gronfa ddata genedlaethol (gweler paragraff 47). Bydd rhestr o'r fath yn helpu gweithredwyr wrth iddynt ystyried safleoedd posibl ar gyfer antenae yn ardal yr awdurdod lleol. Os bydd gweithredwr yn gwneud cais sy'n ymwneud â lleoliad nad yw ar y rhestr safleoedd, mae'n rhesymol i'r awdurdod ddisgwyl i'r ymgeisydd ddangos na fyddai unrhyw safle sydd ar y rhestr yn ddewis arall ymarferol yn lle'r lleoliad sy'n cael ei gynnig.

47. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i rannu mastiau a safleoedd, bydd awdurdodau cynllunio lleol yn cael cymorth cronfa ddata er mwyn helpu i rannu mastiau. Mae'r gronfa ddata hon yn caniatáu i gyfranwyr rannu gwybodaeth yngl^yn â lleoliad safleoedd mastiau sy'n bodoli'n barod.

Cronfa ddata sy'n cael ei rheoli gan Occupiers Property Databank (rhan o Investment Property Databank Limited)

### **Lleoliad a Dyluniad**

48. Gall pryderon sy'n ymwneud â lleoliad a dyluniad ymwneud yn fwyaf arbennig â'r math o fast a'r effaith y byddai'n ei gael – yn enwedig os yw'n cael ei leoli mewn ardal ddynodedig. Bydd ei uchder, datblygiadau ategol a'r posibiladau ar gyfer tirlunio a sgrinio hefyd yn ystyriaethau pwysig. Ond mae gan lawer o antenae anghenion arbennig o safbwynt lleoliad oherwydd bod ganddynt bellter trosglwyddo cyfyngedig neu gan fod arnynt angen llinell welediad. Dylai awdurdodau roi ystyriaeth lawn i'r anghenion hyn. Gall cyfyngiadau llym mewn un ardal, fel cyfyngiadau ar uchder mastiau, annog problemau ymyriad a hefyd achosi problemau cyfatebol mewn ardal gyfagos, fel yr angen i osod mast uwch, neu godi mwy o fastiau nag y byddai eu hangen fel arall er mwyn sicrhau llinell welediad. Bydd angen i awdurdodau sicrhau bod yr holl wybodaeth cynllunio berthnasol o'u blaenau, gan gynnwys manylion am unrhyw gynigion perthynol ar gyfer mastiau a sut y mae'r cynnig yn gysylltiedig â'r rhwydwaith, er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i geisiadau.

49. Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau eu bod yn deall y cyfyngiadau y mae'r gweithredwr yn eu hwynebu, pa un ai oherwydd natur y dechnoleg neu'r gofynion cyfreithiol i ddarparu gwasanaeth. Dylai gweithredwyr fod yn barod i egluro cyfyngiadau technolegol a chyfreithiol, ac i drafod dichonoldeb safleoedd eraill.

50. Wrth geisio penderfynu beth fyddai orau ar gyfer safle unigol, dylai

**Dogfennau Cyfeiriol**

awdurdodau a gweithredwyr ystyried defnyddio dyluniad cydnaws er mwyn lleihau'r effaith y byddai'r datblygiad yn ei gael ar yr amgylchedd. Gan ddibynnu ar y lleoliad, gallai mast un gweithredwr, sydd wedi ei ddylunio'n briodol, fod yn llai ymwithiol yn yr amgylchedd nag un sy'n cael ei rannu.

51. Mae nifer o wahanol ddyluniadau ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys mastiau sydd wedi eu dylunio i edrych fel dodrefn stryd, ac ailddatblygu neu adfer eiddo sy'n bodoli'n barod ar gyfer cyfarpar telathrebu. Anogir y diwydiant telathrebu i ddal ati i ddatblygu dyluniadau blaengar, nid yn unig o safbwynt strwythur mastiau ac antenae ond hefyd o ran y deunyddiau a'u lliw. Mae'n bosibl y byddai awdurdodau'n hoffi trafod gwahanol ddewisiadau ar gyfer dyluniad gyda gweithredwyr mewn perthynas â chynnig datblygu arbennig. Dylid cofio ei bod yn bosibl nad yw rhai dyluniadau'n addas ar gyfer rhannu yn y dyfodol. Lle cytunir bod safle'n addas ar gyfer rhannu mast yn y dyfodol, mae'n bosibl y byddai'n briodol gosod mast sydd wedi ei ddylunio'n benodol er mwyn hwyluso'r gwaith o'i ailddatblygu ar gyfer ei rannu.

52. Wrth ystyried dyluniad datblygiad unigol, yn enwedig unrhyw ddatblygiad mast, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i sgrinio a phlannu. Dylid sicrhau bod terfynau'r safle yn ddigon mawr ar gyfer y gwaith tirlunio sydd ei angen.

53. Yn achos antenae teledu lloeren, sydd wedi cael hawliau datblygu a ganiateir, ni ddylai polisïau'r cynllun datblygu rwystro deiliaid tai, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, rhag derbyn lluniau teledu lloeren. Fodd bynnag, gall awdurdodau cynllunio lleol ddarparu cyfarwyddyd i ddeiliaid tai, pobl sy'n prynu a gwerthu a gosodwyr proffesiynol yngl^yn â lleoliad a lliw soseri teledu lloeren. Mae'n bwysig bod y soser yn ymdoddi i'w chefnidir; dylid sicrhau wrth ei gosod, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, ei bod yn cael cyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar fwynder ac ar ymddangosiad allanol yr adeilad (gweler paragraff 34). Mae gosod soseri yn agos at ffenestri a drysau tai cyfagos yn debygol o arwain at gwynion a dylid osgoi hyn yn gyffredinol. O safbwynt bloc o fflatiau, gall gosod systemau sy'n cael eu rhannu helpu i osgoi'r effaith y byddai toreth o soseri ar waliau a thoeau'n debygol o'i gael fel arall.

GPDO, Atodlen 2, Rhan 1

Householders Planning  
Guide for the installation of  
Satellite Television Dishes,  
Adran yr Amgylchedd,  
Trafnidiaeth a'r  
Rhanbarthau/Y Swyddfa  
Gymreig, 1998

GPDO, Atodlen 2, Rhan 25

54. Ychydig iawn o broblemau cynllunio posibl sy'n codi fel arfer o safbwynt maint ac effaith weledol dros ardal helaeth gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio i osod mastiau sy'n cael eu defnyddio'n aml gan bobl sy'n defnyddio radio amatur, cwmnïau tacsï radio a defnyddwyr eraill preifat a masnachol. Mae angen i fastiau o'r fath fod yn ddigon mawr i fod yn dechnegol effeithlon ac mae angen eu lleoli cyn belled ag sy'n bosibl oddi wrth antenae eraill, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ymyriad. Fodd bynnag, ni fyddant yn ddigon mawr fel arfer i gael effaith ddifrifol ar fwynder lleol. Ni fydd cymaint o bosibiliadau fel arfer i ymgeiswyr o'r fath ddefnyddio safleoedd eraill neu rannu safleoedd, ac yn aml iawn bydd angen lleoli mastiau ar eiddo'r unigolion.

## Adeiladau Rhestredig a Chofebion Rhestredig

55. Mae pob datblygiad telathrebu yn ddarostyngedig i'r trefniadau statudol arferol ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Ni chynigir unrhyw eithriadau i'r gofynion arferol sy'n ymwneud â chael caniatâd o'r fath cyn gwneud gwaith sy'n effeithio ar adeilad rhestredig. Cynghorir unrhyw weithredwr sy'n bwriadu gwneud gwaith sy'n debygol o effeithio ar gymeriad neu ymddangosiad adeilad rhestredig i gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol i edrych beth yw'r sefyllfa statudol. Yn yr un modd, mae angen caniatâd cofeb rhestredig gan Cadw ar gyfer unrhyw waith i henebion rhestredig, neu ar safle henebion rhestredig.

## Dogfennau Cyfeiriol

Deddf Cynllunio (Adeiladau Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adrannau 7 ac 8

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth'.

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96, 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg'

Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, Adran 2

## Trefniadau Clirio Safle Radio

56. Mae angen i bob gweithredwr cyfarpar trosglwyddo radio fynd trwy broses drwyddedu sy'n cynnwys, lle bo angen, rhoi'r safle(oedd) trosglwyddo trwy drefniadau clirio safle radio'r Asiantaeth Radiogyfathrebu. Pwrpas y trefniadau yw ystyried effaith sefydlu safleoedd radio newydd, neu addasiadau i safleoedd presennol, o safbwynt ymyriad radio posibl ar wasanaethau diogelwch a gwasanaethau hanfodol y Llywodraeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, dechreuir y trefniadau clirio safle ar ôl i unrhyw ganiatâd cynllunio sydd ei angen gael ei roi. Nid yw'r ffaith bod safle heb ei glirio eto'n berthnasol wrth ystyried cais cynllunio.

## YSTYRIAETHAU SY'N YMWNEUD AG IECHYD

### Beth yw Meysydd Electromagnetig?

57. Mae ffonau symudol a'u gorsafoedd sefydlog yn trosglwyddo ac yn derbyn signalau gan ddefnyddio tonnau electromagnetig (y cyfeirir atynt hefyd fel ymbelydredd neu feysydd electromagnetig, EMFs, neu donnau radio). Mae meysydd electromagnetig o'n cwmpas ym mhobman. Maent yn digwydd yn naturiol, fel maes magnetig y ddaear sy'n achosi i nodwyddau cwmpawd bwyntio tua'r gogledd. Mae prosesau biolegol naturiol hefyd yn cynhyrchu meysydd trydanol a magnetig mewn anifeiliaid a phobl. Mae meysydd electromagnetig hefyd yn deillio o amrediad eang o ffynonellau sydd wedi eu creu gan ddyn a byddant yn bresennol lle bynnag y mae trydan. Mae ffynonellau meysydd electromagnetig sydd wedi eu creu gan ddyn yn cynnwys gwifrau a chyfarpar domestig (fel lampau, sychwyr gwallt a setiau teledu), unedau arddangos gweledol, ffonau symudol, trenau trydan

**Dogfennau Cyfeiriol**

a systemau diogelwch sy'n cael eu defnyddio mewn siopau.

58. Mae ffynonellau meysydd electromagnetig sydd wedi eu creu gan ddyn hefyd yn cynnwys llinellau trydan, trosglwyddyddion darlledu a gorsafoedd sefydlog telathrebu (sy'n cynnwys y rhai hynny sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys, a'r rhai hynny sy'n ffurfio rhan o rwydweithiau cyfathrebu symudol). Y ffynonellau hyn yw'r rhai y mae'r system gynllunio'n dod ar eu traws amlaf. Ffynonellau meysydd electromagnetig o'r fath hefyd, yn aml iawn, sy'n fwyaf tebygol o arwain at bryder yngl^yn ag effeithiau posibl ar iechyd ymhlith y cyhoedd.

59. Ymgynghorwyr statudol y Llywodraeth ar faterion radiolegol yw'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol. Mae'r Bwrdd yn darparu cyngor arbenigol ar oblygiadau iechyd meysydd electromagnetig, gan ddefnyddio'r ymchwil ddiweddaraf un drwy'r byd i gyd. Gall y Bwrdd hefyd gynnig cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ac i'r cyhoedd, ac mae wedi cynhyrchu nifer o daflenni a llyfrynau eraill yn y maes hwn. Gellir cael mwy o wybodaeth ar safle'r Bwrdd ar y we neu trwy ffonio'r llinell ar gyfer ymholiadau'r cyhoedd.

[www.nrpb.org.uk](http://www.nrpb.org.uk)  
01235 831600

**Effeithiau Cysylltiad â meysydd electromagnetig ar Iechyd**

60. Mae'r cyhoedd wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o bresenoldeb meysydd electromagnetig yn yr amgylchedd. Ochr yn ochr â'r ymwybyddiaeth gynyddol hon mynegwyd pryder y gallai cysylltiad â meysydd electromagnetig gael effaith andwyol ar iechyd. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn cael eu gwarchod lle bynnag y mae effaith andwyol ar iechyd.

61. Mae effeithiau y sefydlwyd bod cysylltiad â thonnau radio o systemau ffonau symudol yn eu cael ar iechyd yn gysylltiedig a chynhesu meinweoedd. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol a'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ioneiddio wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfyngu cysylltiad â thonnau radio (gweler paragraff 69 isod).

62. Fodd bynnag, un pwynt arbennig sy'n peri pryder i'r cyhoedd yw a allai cysylltiad ag ychydig o feysydd electromagnetig achosi effeithiau eraill 'sydd heb eu sefydlu' ar iechyd, fel cur pen, methu cysgu, iselder, straen a hefyd effeithiau ar iechyd yn y tymor hir, fel canser.

**Gr^wp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol**

63. Yn 1999, gofynnodd y Llywodraeth i'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol sefydlu'r Gr^wp Arbenigol Annibynnol ar Ffonau Symudol. Bu'r Gr^wp hwn yn ystyried pryderon yngl^yn ag effeithiau ar iechyd yn sgil defnyddio ffonau symudol, gorsafoedd sefydlog a throsglwyddyddion. Gwnaethpwyd asesiad trylwyr a chynhwysfawr ganddynt o'r ymchwil sydd ar gael ar hyn o bryd a chasglwyd amrediad eang o safbwyntiau. Cyhoeddodd y Gr^wp ei adroddiad (Adroddiad Stewart) ar 11 Mai 2000.

Adroddiad Stewart sydd i'w weld dan [www.iegmp.org.uk](http://www.iegmp.org.uk)

**Dogfennau Cyfeiriol**

64. Yn achos gorsafoedd sefydlog, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod "y dystiolaeth ar y cyfan yn dangos nad oes perygl cyffredinol i iechyd pobl sy'n byw yn ymyl gorsafoedd sefydlog, a hynny gan fod disgwyl i lefel y cysylltiad â meysydd electromagnetig fod yn llawer is na'r hyn sydd yn y canllawiau. Er hyn, mae'n bosibl y bydd effeithiau andwyol anuniongyrchol ar eu lles mewn rhai achosion". Maent hefyd yn dweud na ellir yn hyderus ddiystyru'r posibilrwydd o niwed a bod bylchau mewn gwybodaeth yn dangos bod angen gofal.

65. Argymhellodd y Grŵp Arbenigol Annibynnol y dylid cymryd rhagofalon, gan fabwysiadu cyfres o gamau penodol, sy'n ymwneud â defnyddio technoleg ffonau symudol hyd nes y bydd gennym wybodaeth fanylach, ar sylfaen wyddonol gadarn am unrhyw effeithiau ar iechyd.

66. Yn ei ymateb i adroddiad y Grŵp, nododd y Cynulliad ei fod yn derbyn argymhelliad y Grŵp ynglŷn â chymryd rhagofalon. Mae'r rhagofalon sy'n cael eu derbyn gan y Cynulliad wedi eu cyfyngu i'r argymhellion penodol yn adroddiad y Grŵp ac ymateb y Cynulliad iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dylai'r meysydd electromagnetig sy'n cael eu gollwng o orsafoedd sefydlog ffonau symudol gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ioneiddio ar gysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig fel sydd wedi ei nodi yn Argymhelliad Cyngor yr UE ar 12 Gorffennaf 1999 ar gyfyngu cysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig (0Hz i 300GHz). Mae'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd sefydlog eisoes yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn a bydd pob gorsaf sefydlog newydd yn cydymffurfio â hwy.
- Cronfa ddata genedlaethol i'w sefydlu gan y Llywodraeth yn rhoi manylion am bob gorsaf sefydlog a faint o feysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau ohonynt. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac mae wrthi'n dod â gwybodaeth am safleoedd gorsafoedd sefydlog a faint o feysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau ganddynt at ei gilydd i ffurfio un gronfa ddata sydd wedi ei chyd-drefnu. Y bwriad yw sicrhau bod gwybodaeth sy'n berthnasol i'r safle a faint o feysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau ohonynt ar gael i'r cyhoedd ac awdurdodau cynllunio lleol. Bydd y gronfa ddata'n ategu'r Occupiers Property Database a grybwyllwyd ym mharagraff 47 uchod.
- Dylid sefydlu archwiliad annibynnol o faint o feysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau er mwyn i'r cyhoedd deimlo'n ffyddiog nad yw gorsafoedd sefydlog yn rhyddhau mwy o donnau na'r canllawiau cymeradwyedig. Mae trefniadau'n cael eu trafod ar hyn o bryd gyda'r Asiantaeth

**Dogfennau Cyfeiriol**

Radiogyfathrebu. Rhoddir blaenoriaeth i ysgolion ac ardaloedd sensitif eraill.

- Mewn perthynas â gorsafoedd sefydlog macrogell, ni ddylai'r pelydr sydd â'r dwysedd uchaf syrthio ar unrhyw ran o dir nac adeiladau ysgol heb i'r ysgol a'r rhieni gytuno ar hynny. Lle bo rhieni a/neu ysgolion yn dymuno gwybod a yw'r pelydr sydd â'r dwysedd uchaf yn syrthio ar dir neu adeiladau ysgol, dylai'r ysgol gysylltu â gweithredwr yr orsaf sefydlog. Mae'r gweithredwyr wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth i ysgolion yngl^yn â dwysedd ymbelydredd amledd radio. Pe bai'r ysgol neu'r rhieni'n mynegi cryn bryder, gallent ofyn i weithredwr y rhwydwaith addasu'r antenae.
- Dylid pennu parthau amlwg sydd i'w cadw'n glir o amgylch antenae pob gorsaf sefydlog er mwyn sicrhau nad yw'r cyhoedd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd amledd radio sy'n uwch na chanllawiau'r Comisiwn (mae'r parthau gwahardd hyn yn ymwneud ag arwynebedd yn union o flaen yr antenae ac ar uchder yr antena). Arwyddion rhybudd clir ar drosglwyddyddion microgell a phicogell er mwyn lleihau'r risg o gysylltiad heb fod angen ag ymbelydredd yn sgil eu hagog tra maent yn cael eu defnyddio.
- Dylai'r cwmnïau ffonau symudol a'r sector cyhoeddus ariannu rhaglen ymchwil sylweddol, yn cael ei goruchwylio gan banel sydd i'w weld yn un annibynnol. Mae'r Llywodraeth yn comisiynu rhaglen ymchwil gynhwysfawr â chyllideb o rai miliynau o bunnoedd.

Y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol i adolygu mwy o ymchwil yn y maes hwn ac i gyflwyno adroddiad ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ymhen tair blynedd neu pa bryd bynnag y ceir gwybodaeth newydd o bwys.

- Mae'r Cynulliad i baratoi taflen er mwyn darparu gwybodaeth a fydd yn galluogi'r defnyddiwr i wneud penderfyniadau yngl^yn â'r defnydd y mae ef a'i deulu'n ei wneud o dechnoleg ffonau symudol newydd.

**Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch**

67. Mae gan weithredwyr hefyd gyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mae ganddynt gyfrifoldeb i asesu unrhyw risg i iechyd a diogelwch a allai godi, gan gynnwys asesiad o lefelau cysylltiad tebygol, ac i gymryd unrhyw gamau priodol sydd eu hangen er mwyn rhwystro'r cyhoedd rhag cael mynediad (e.e. trwy rwystrau addas wedi eu cloi a'u

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

Rheoliadau Rheoli Iechyd a

harwyddo er mwyn atal pobl). Dylai deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn ymarferol sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu gwarchod rhag yr effeithiau cydnabyddedig y gall cyfarpar telathrebu eu cael ar iechyd.

68. Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol geisio dyblygu trwy reolyddion y system gynllunio dan y trefniadau iechyd a diogelwch. Mae gorfodi'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y maes hwn yn fater i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Os oes tystiolaeth neu bryder nad yw gweithredwr yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn achos arbennig bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn mynnu bod y camau sydd eu hangen yn cael eu cymryd. Nid oes angen ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yngl^yn â cheisiadau cynllunio unigol (ac eithrio ar gyfer datblygiad sydd ger safleoedd lle mae cryn berygl).

69. Wrth asesu cydymffurfiant â'r deddfwriaeth iechyd a diogelwch mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyfeirio at ganllawiau atal a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol. Bwriadwyd y rhain er mwyn sicrhau nad yw effeithiau cydnabyddedig ar iechyd yn digwydd. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 66, mae'r Cynulliad wedi derbyn argymhelliad y Gr^wp y dylai gorsafoedd sefydlog, fel un o'r rhagofalon, gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig. Mae canllawiau'r Comisiwn ar gysylltiad y cyhoedd â meysydd electronig yn llymach na rhai'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol. Mae'n amlwg y bydd gweithredwyr, wrth gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn yn cydymffurfio hefyd â gofynion y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol.

70. Gellir cael cyngor penodol yngl^yn ag ymyriad ar ddyfeisiau meddygol gan yr Asiantaeth Dyfeisiau Meddygol.

### **YSTYRIED EFFEITHIAU AR IECHYD A DIRNADAETH Y CYHOEDD O BERYGL**

71. Dylai pob ymgeisydd gynnwys datganiad gyda'i gais yn nodi y bydd y cyfarpar, pan fydd yn cael ei weithredu, yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn. Yn unol ag argymhellion y Gr^wp dylai'r gweithredwr hefyd ddarparu datganiad ar gyfer pob safle i'r awdurdod lleol yn nodi eu lleoliad, uchder yr antenae, nodweddion tonfeddu ac amledd a manylion yngl^yn â'r trydan a fydd yn cael ei ryddhau.

72. Cynghorir awdurdodau lleol i beidio â dibynnu gormod ar ganfyddiadau prosiectau ymchwil unigol wrth benderfynu yngl^yn â cheisiadau ar gyfer cyfarpar telathrebu, neu yn ymyl cyfarpar telathrebu. Mae'r Gr^wp Arbenigol Annibynnol wedi ystyried yr holl ymchwil berthnasol fel rhan o'i adolygiad ac mae hyn wedi ei helpu i ffurfio'i gasgliadau a'i argymhellion. Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol yw ystyried a chynnig cyngor yngl^yn ag adroddiadau unigol fel

**Dogfennau Cyfeiriol**

rhan o'i rôl yn darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â diogelu radiolegol. Dylai awdurdodau y mae aelodau o'r cyhoedd yn gofyn iddynt ystyried adroddiadau arbennig ystyried cyngor arbenigol y Bwrdd.

73. Gall awdurdodau dderbyn cwynion sy'n seiliedig ar iechyd am effaith honedig datblygiadau telathrebu arfaethedig ar werth eiddo. Nid yw'r system gynllunio'n gyfrifol am warchod buddiannau preifat un person rhag gweithgareddau un arall. Er y gallai ystyriaethau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ambell achos warchod buddiannau preifat, nid a fyddai datblygiad arbennig yn arwain at golled ariannol neu golled arall i berchenogion a deiliaid yr eiddo cyfagos yw'r cwestiwn perthnasol, ond a fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar yr ardal yn gyffredinol, ac ar fwynderau a ddylai gael eu hamddiffyn er lles y cyhoedd.

**YMYRIAD RADIO O DDATBLYGIAD ARFAETHEDIG**

74. Mae dau fath o ymyriad yn y bôn. Y math cyntaf yw ymyriad trydanol, sy'n cael ei achosi gan drosglwyddydd radio neu gan signalau nad oes eu heisiau sy'n cael eu rhyddhau gan gyfarpar trydanol arall. Mae gan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu bwerau statudol i ddelio gyda'r math hwn o ymyriad. Dim ond os oes tystiolaeth bendant y bydd datblygiad yn achosi ymyriad trydanol sylweddol, ac nad oes dim byd ymarferol y gellir ei wneud i atal hynny, y bydd unrhyw gyfiawnhad fel arfer dros ystyried hyn wrth benderfynu yngl^yn â chais cynllunio.

Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 1949

75. Yr ail fath yw ymyriad ffisegol. Mae tystiolaeth bendant bod strwythurau amlwg, mawr fel blociau tyrau, craeniau dociau, warysau neu ffermydd gwynt, yn gallu amharu cryn dipyn ar deledu a gwasanaethau telathrebu eraill oherwydd y rhwystr ffisegol neu gan eu bod yn adlewyrchu'r signalau nad oes eu heisiau. Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol fodloni eu hunain bod y posibilrwydd o ymyriad wedi ei ystyried yn ofalus wrth leoli a dylunio datblygiadau o'r fath, oherwydd y bydd yn anos, yn fwy costus ac ambell waith yn amhosibl cywiro'r camgymeriad ar ôl i'r gwaith gael ei wneud. Gellir ystyried rhai ffactorau ar adeg y cais cynllunio, yn enwedig uchder a lled pob un o wynebau'r strwythur, y deunydd a gorffeniad yr arwyneb allanol, ac i ba gyfeiriad y mae ochrau'r strwythur yn wynebu mewn perthynas ag unrhyw drosglwyddydd lleol. Os yw'n amlwg, oherwydd natur y datblygiad, y bydd ymyriad o'r fath ar dderbyn signal teledu yn broblem fawr, mae'n bosibl mai'r ateb fyddai i'r datblygwr osod system cebl neu drosglwyddo (ailadrodd) teledu. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd modd cael ateb ymarferol bob tro. Yn yr achos hwn, lle ceir trosglwyddyddion darlledu, dylid ymgynghori'n drylwyr gyda'r awdurdodau darlledu cyn mabwysiadu dull gweithredu o'r fath.

Lle disgwylir posibilrwydd o ymyriad o'r naill fath neu'r llall, bydd angen cyd-drefnu â'r Asiantaeth Radiogyfathrebu a'r darlledwyr neu weithredwyr cysylltiad sefydlog er mwyn canfod a yw ateb peiranyddol i'r broblem yn ymarferol. Mewn achosion o'r fath, dylid cysylltu â hwy cyn gynted ag sy'n bosibl yn ystod y broses gynllunio ac ystyried eu cyngor. Lle mae problemau o'r fath yn debygol, gall awdurdodau cynllunio lleol roi caniatâd



**Dogfennau Cyfeiriol**

cynllunio gydag amod y bydd y datblygwr, cyn i'r gwaith datblygu ddechrau, yn sicrhau y bydd ansawdd unrhyw dderbyniad y bydd y datblygiad yn effeithio arno yn cael ei adfer (Gweler Anecs 2 am fwy o fanylion yngl^yn ag ymyriad radio).

**AGWEDDAU TELATHREBU MEWN DATBLYGIADAU ERAILL**

77. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau, bydd awdurdodau cynllunio'n awyddus i ystyried materion telathrebu. Dylent annog darpar ddatblygwyr tai newydd, swyddfeydd a stadau diwydiannol i ystyried gyda phob gweithredwr telathrebu perthnasol sut y bydd anghenion telathrebu'r deiliaid yn cael eu diwallu. Dylai datblygwyr ddarparu digon o bibellau er mwyn gosod ceblau telathrebu (ac ar gyfer gwasanaethau eraill lle bo'n briodol) yn y dechreuad o dan y ddaear ac yn strwythur yr adeilad, er mwyn cwrdd â'r galw y gellir ei ragweld am wasanaethau cystadleuol sy'n debygol o gael eu darparu i'r stadau hynny. Bydd hyn yn help i leihau'r amhariad a'r costau os oes angen gwneud darpariaeth yn nes ymlaen, ac yn lleihau'r angen am gyfarpar telathrebu uwchben y ddaear. Dylai darparu cyfarpar o'r fath ar gyfer y deiliaid, fel systemau prif antennae neu antennae sy'n cael eu rhannu, fel arfer fod yn ddarostyngedig i ymgynghori a chydweithio manwl rhwng y datblygwr a'r gweithredwyr telathrebu.

78. Yn gyffredinol, mae'n well lleoli ceblau newydd o dan y ddaear neu ar arwyneb allanol adeiladau, ond gall y dull dosbarthu sy'n cael ei ddefnyddio'n barod yn yr ardal fod yn ffactor perthnasol. Mae trwyddedau gweithredwyr systemau'r cod yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer gosod cyfarpar o dan y ddaear (ac eithrio llinellau gwasanaeth), ac ar gyfer yr angen i weithio mewn cysylltiad agos â'r datblygwr a'r cyfleustodau eraill wrth wasanaethu datblygiad newydd fel bod modd darparu pibellau tanddaearol ar gyfer nifer o fentrau yn ystod y cyfnod datblygu, neu unrhyw bibellau addas sy'n cael eu defnyddio'n barod.

79. Yn y gorffennol mae rhai awdurdodau cynllunio lleol wedi bod yn defnyddio'u pwerau weithiau i osod amodau sy'n nodi y dylai'r holl geblau a gwifrau sydd i wasanaethu stad newydd gael eu gosod o dan y ddaear yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd modd i ddeiliaid tir yn y dyfodol sicrhau bod gwifrau'n cael eu gosod o dan y ddaear yn y dyfodol (bydd hyn yn fater i'r gweithredwr) a hyd yn oed os yw hyn yn bosibl, gallai olygu costau sylweddol i'r deiliaid. Mae'n bosibl na ellid gorfodi amodau o'r fath ac mae'n bosibl hefyd nad ydynt yn rhesymol. Mae'n well felly annog datblygwyr i osod pibellau addas yn y dechreuad fel rhan o'r datblygiad. Bydd gweithredwyr telathrebu fel arfer yn awyddus i'w defnyddio, os ydynt ar gael ac os ydynt yn addas i'w dibenion.

Cylchlythyr y Swyddfa  
Gymreig 35/95, 'Defnyddio  
Amodau wrth roi Caniatâd  
Cynllunio'.

**CANSLO**

80. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/99, 'Cynllunio ar gyfer Telathrebu', a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, 'Teleathrebu', Awst 1998, yn cael eu canslo.

**Dogfennau Cyfeiriol**

**ATODIAD – CYFARWYDDYD YNGL^YN Â THREFNIADAU CYMERADWYO YMLAEN LLAW  
AR GYFER DATBLYGIADAU TELATHREBU A GANIATEIR**

[I'w gwblhau ar ôl ymgynghori]

**ANECs 1 – CRYNODEB O'R PRIF HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR**

[I'w gwblhau ar ôl ymgynghori].

## ANECs 2 – RHEOLI YMYRIAD RADIO

1. Mae telerau'r ddeddfwriaeth delegraffiaeth ddi-wifr yn ei gwneud yn ofynnol i bob un sy'n defnyddio cyfarpar radio osgoi creu ymyriad radio heb fod angen i ddefnyddwyr radio eraill, gan gynnwys setiau teledu mewn tai, ac mae'n rhaid i'w cyfarpar fod wedi ei ddylunio er mwyn lleihau ymyriad. Mae Rheoliadau Ewropeaidd hefyd sy'n ymwneud â chydawnsedd ac imiwnedd dyfeisiau trydanol i ymyriad electromagnetig. (Mae'r manylion diweddaraf yngl^yn â'r rheoliadau cyfredol i'w gweld yn safle'r Asiantaeth Radiogyfathrebu ar y we dan [www.radio.gov.uk](http://www.radio.gov.uk)). Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, felly, nid yw cwestiynau sy'n ymwneud ag ymyriad posibl yn berthnasol wrth benderfynu yngl^yn â cheisiadau cynllunio ar gyfer mastiau neu antenae sydd eu hangen ar gyfer trosglwyddydd. Bydd rheolyddion eraill ar gael fel arfer i ddelio gyda phroblemau ymyriad radio.
2. Fodd bynnag, gall ymyriad sylweddol ddigwydd er gwaetha'r rheolyddion hyn. Er enghraifft, mae'n bosibl mai ffynhonnell yr ymyriad yw math o gyfarpar nad yw cwmpas y rheoliadau hyn yn ei gyffwrdd; neu mae'n bosibl bod ffactorau sy'n ymwneud yn benodol â safle sy'n arwain at ymyriad, er bod y datblygwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Yn ychwanegol at hyn, gall ymyriad gael ei achosi gan yr adeilad ei hun, o bosibl oherwydd ei fod yn rhwystr ffisegol i signalau neu'n eu hadlewyrchu, gan achosi "rithio". Ni ellir delio gyda'r math hwn o ymyriad dan y ddeddfwriaeth radio. Bydd y cwestiwn a yw ymyriad o'r fath yn ddigon drwg i fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, a faint o bwyslais y dylid ei roi iddo, yn fater o ffaith a graddau ym mhob achos unigol a dylai'r awdurdod cynllunio lleol ffurfio barn yng ngoleuni'r amgylchiadau unigol.
3. Os yw'r gwaith datblygu heb ddechrau eto, ond bod ymyriad posibl yn achosi pryder gwirioneddol yn lleol, mae'n bosibl y byddai'r naill ochr neu'r llall yn awyddus i ofyn am gymorth arbenigwyr er mwyn asesu tebygolrwydd a maint ymyriad, ond ni ddylai awdurdodau chwilio am broblemau o'r fath er mwyn gwneud archwiliad beirniadol heb fod angen.
4. Nid yw'n debygol y gellid cyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio ar sail ymyriad radio o drosglwyddydd neu gyfarpar ar wahân i radio yn unig ac eithrio mewn achosion eithafol. Ambell waith gallai fod yn briodol rhoi caniatâd cynllunio er mwyn caniatáu cyfnod gweithredu prawf, ond ni ddylid mabwysiadu hyn wrth gwrs onid oes tystiolaeth o ymyriad sylweddol, a dim ond fel dewis arall yn lle gwrthod. Ar ddiwedd y prawf gellir gwneud y penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau darlledu a thelathrebu cenedlaethol ni fyddai caniatâd cynllunio dros dro fel arfer yn cael ei ystyried yn dderbyniol gan y gweithredwyr. Lle bo ceisiadau sy'n cael eu gwrthod dim ond neu'n bennaf ar sail ymyriad yn dod i apêl, bydd y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio baratoi manylion llawn yn nodi'r dystiolaeth o ymyriad, neu'r ymyriad tebygol, a thystiolaeth nad oes unrhyw atebion rhesymol a fyddai'n foddhaol.
5. Ni fydd amod cynllunio cyffredinol sy'n nodi na ddylai unrhyw ymyriad ddigwydd fel arfer yn briodol nac yn rhesymol. Gellir rheoli rhai mathau o ymyriad dan y ddeddfwriaeth ar radio ac fel arfer bydd yn well dibynnu ar y ddeddfwriaeth honno mewn achos o'r fath yn hytrach na defnyddio amodau cynllunio. Yn ychwanegol at hyn mae angen ystyried gallu'r cyfarpar sy'n cael ei effeithio i wrthsefyll signalau nad oes eu heisiau. Os nad yw'r cyfarpar yn gallu gwrthsefyll y signalau hyn yn foddhaol, gallai ymyriad ddigwydd heb fod unrhyw fai ar y ffynhonnell.
6. Os yw'r gosodiad sy'n achosi ymyriad mewn grym yn barod, (e.e. mewn achosion lle gwneir cais i gadw mast sy'n bodoli'n barod yn dilyn caniatâd cynllunio sydd wedi ei gyfyngu gan amser, neu os yw'r datblygiad gwreiddiol wedi ei wneud heb ganiatâd a bod yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried camau gorfodi), bydd yn gymharol hawdd canfod a ellir ac a ddylid cywiro'r ymyriad, pa un a yw'n fater ar gyfer rheolaeth trwyddedu radio ac, os nad yw, a oes angen atebion i'r broblem dan reolyddion cynllunio. Gallai trosglwyddiadau prawf ddangos graddfa debygol unrhyw broblem, er y gellid cydnabod nad yw

trosglwyddiadau prawf bob amser yn rhoi darlun manwl gywir o amgylchiadau'r gosodiad terfynol nac yn mynd ymlaen am ddigon o amser fel bod amgylchiadau andwyol achlysurol yn codi.

7. Mewn achosion lle mae ymyriad o drosglwyddydd neu gyfarpar ar wahân i radio wedi digwydd, dylai'r achwynwyr gysylltu yn gyntaf â'u peiriannydd gwasanaeth, contractwr erial, cyflenwr neu werthwr y cyfarpar. Gwyddom o brofiad fod gan y cyfarpar sy'n cael ei effeithio, yn y rhan fwyaf o achosion, ddigon o imiwnedd i ymyriad neu bod rhywbeth o'i le ar y ffordd y mae wedi ei osod. Gellir lliniaru ymyriad o'r fath yn aml trwy gamau technegol addas er mwyn gwella imiwnedd y cyfarpar sy'n cael ei effeithio i signalau nad oes eu heisiau.

8. Gall achwynwyr hefyd gysylltu â'r Asiantaeth Radiogyfathrebu, Asiantaeth Weithredol yr Adran Masnach a Diwydiant, sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth ar ymyriad radio. Mae'r Asiantaeth yn codi tâl am archwilio cyfarpar y mae ymyriad yn effeithio arno, ond ni chodir tâl am ymchwilio ffynonellau ymyriad penodol.

9. Mae'r Asiantaeth yn cynhyrchu canllaw rhad ac am ddim i ddeiliaid tai sy'n dioddef ymyriad ar deledu neu radio. Gellir cael copi ohono trwy ffonio 020 7211 0211 a gofyn am y llyfrgell, neu trwy gysylltu â safle'r Asiantaeth ar y we ([www.radio.gov.uk](http://www.radio.gov.uk)). Gall busnesau sy'n dioddef ymyriad radio gysylltu â swyddfa leol yr Asiantaeth.

10. Os oes amnoch angen cyngor, gallech gysylltu â'r cyfeiriadau isod:

The Association of Consulting Engineers, Alliance House, 12 Caxton Street, Llundain, SW1H 0QL

BBC, Engineering Information Department, White City, 201 Wood Lane, Llundain W12 7TS

ITC Engineering Information, Kings Worthy Court, Winchester, Hampshire SO237 7QA

Radio Authority, Holbrook House, 14 Great Queen Street, Holborn, Llundain WC2B 5DG

National Transcommunications Limited, Crawley Court, Winchester SO21 2QA

The Institution of Electrical Engineers, Savoy Place, Llundain WC2R 0BL

The Radiocommunications Agency, Wyndham House, 189 Marsh Wall, Llundain, E14 9SX.

Radio Society of Great Britain, Lambda House, Cranborne Road, Potters Bar, Hertfordshire EN6 3JW

**RHAN 5 ASESIAID O'R EFFAITH REOLEIDDIOL INTERIM****GOFYNNIR AM SYLWADAU AR YR ASESIAID INTERIM HWN CYN EI GYNNWYS YN Y FERSIWN TERFYNOL. DRAFFT CYCHWYNNOL YW HWN A GALLAI EICH HELPU I LUNIO'CH CYFRANIADAU****Materion ac Amcanion**

Polisi'r Cynulliad ar ddatblygiadau telathrebu yw helpu i hwyluso lledaeniad seilwaith telathrebu amrediad eang datblygedig trwy Gymru, gan warchod yr amgylchedd yr un pryd. Mae'r fframwaith rheoli presennol wedi ei lunio gyda'r bwriad o gyflawni'r amcanion deublyg hyn. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol gyfle i reoli lleoliad ac ymddangosiad rhai datblygiadau telathrebu naill ai wrth ystyried cais cynllunio llawn, neu wrth benderfynu yngl^yn â "chais am gymeradwyaeth ymlaen llaw" dan ran 24 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae profiad o'r fframwaith rheoli cyfredol, fodd bynnag, wedi nodi rhai diffygion yn y trefniadau presennol, sef:

- (i) Y trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yngl^yn â mastiau ar y ddaear sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw (Mater 1). Derbyniwyd llawer iawn o gwynion yn nodi nad yw'r trefniadau presennol yn ddigonol. Mae Adroddiad Stewart ar ffonau symudol ac iechyd yn awgrymu bod diffyg ymgynghori â'r cyhoedd yn un o'r prif ffactorau sydd wrth wraidd cwynion gan bobl sy'n dioddef amhariad ar fwynder pan godir gorsafoedd sefydlog. Mae hefyd yn awgrymu bod llawer yn teimlo bod y trefniadau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd yn eu cau allan ac yn tynnu eu hawliau oddi arnynt. Gall y rhwystredigaeth y mae hyn yn ei achosi gael effaith negyddol ar iechyd a lles pobl. Oherwydd hyn, argymhellodd Gr^wp Stewart y dylid cyflwyno newidiadau i'r modd y rheolir gorsafoedd sefydlog;
- (ii) Y trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yngl^yn â mastiau ar adeilad neu strwythur arall sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau ar gyfer cymeradwyaeth ymlaen llaw (Mater 2). Mae argymhellion Gr^wp Stewart yn berthnasol i bob gorsaf sefydlog gan gynnwys y rhai hynny sydd ar adeiladau a strwythurau eraill. Gweler y rhesymau a roddwyd uchod; a
- (iii) Cymhlethdod y trefniadau presennol dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, yn enwedig ar gyfer y trefniadau cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer datblygiad ar wahân i fastiau telathrebu (yr ymdrinnir â hwy dan Faterion 1 a 2).

**Asesu Risg**

Nid yw asesiad o risg yn briodol. Mae'r newidiadau'n cael eu hawgrymu er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y broses gynllunio yn hytrach nag ymdrin ag unrhyw risg benodol.

**Dewisiadau**

Nodwyd dau ddewis ar gyfer Mater 1:

diddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod pob mast ar y ddaear (Dewis Un); a

diddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod mastiau ar y ddaear a nodi bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw neu ganiatâd cynllunio er mwyn addasu neu adnewyddu pob mast sydd ar y ddaear lle bo'r uchder yn cael ei godi (Dewis Dau).

Nodwyd dau ddewis ar gyfer Mater 2:

diddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod pob mast ar adeiladau neu strwythurau (Dewis Tri); a

diddymu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod mastiau ar y ddaear a nodi bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw neu ganiatâd cynllunio er mwyn addasu neu adnewyddu pob mast ar adeilad neu strwythur lle mae'r uchder yn cael ei godi (Dewis Pedwar).

### **Materion sy'n ymwneud â thegwch i bawb**

A yw'n deg gwrthod trefniadau ymgynghori digonol mewn perthynas â datblygiad telathrebu arfaethedig i unigolion sy'n cael eu heffeithio?

A yw'n deg gwneud i'r gweithredwr telathrebu wynebu oedi/costau ychwanegol?

### **Nodi manteision**

Byddai newidiadau i'r trefniadau cynllunio presennol yn cael gwared ar sawl pwynt sy'n codi cynnen yn y trefniadau presennol.

Ar gyfer Mater 1:

- i. Byddai Dewis Un yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau yngl^yn ag unrhyw fast y bwriedir ei godi ar y ddaear, ac yn rhoi mwy o amser i'r awdurdod cynllunio lleol ei ystyried.
- ii. Byddai Dewis Dau, fel (i), a byddai hefyd yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau yngl^yn â gwaith addasu neu adnewyddu i bob mast ar y ddaear lle bo'r uchder yn cael ei godi.

Ar gyfer Mater 2:

- i. Byddai Dewis Tri yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau yngl^yn ag unrhyw fast y bwriedir ei osod ar adeilad neu strwythur, ac yn rhoi mwy o amser i'r awdurdod cynllunio lleol ei ystyried.
- ii. Byddai Dewis Pedwar, fel (i), a byddai hefyd yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau yngl^yn â gwaith addasu neu adnewyddu i bob mast ar adeilad neu strwythur lle bo'r uchder yn cael ei godi.

### **Mesur y manteision a'u gwerth**

Ni ellir mesur manteision cysylltu â'r cyhoedd.



## Sectorau busnes sy'n cael eu heffeithio

Pob gweithredwr sydd wedi cael pwerau'r Cod Telathrebu yn unol â'i drwydded. Disgwylid i'r cynigion effeithio'n bennaf ar y gweithredwyr hynny sydd â thrwydded i weithredu gwasanaeth ffôn symudol neu gyswllt sefydlog radio. Ar hyn o bryd mae pum gweithredwr cyfathrebu symudol cenedlaethol a saith gweithredwr mynediad sefydlog radio.

## Costau cydymffurfio ar gyfer busnes "nodweddiadol"

a. Rheolaidd

Ar gyfer Mater 1:

- (i) Mae'r costau sy'n gysylltiedig â Dewis Un yn cynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â gwneud cais cynllunio. Yn unol â'r rheoliadau presennol, mae ffi o £35 yn daladwy ar gyfer cais am benderfyniad i roi cymeradwyaeth ymlaen llaw, tra mae ffi o £95 am bob 0.1 hectar o arwynebedd y safle (yn amodol ar uchafswm o £950) yn daladwy ar gyfer cais cynllunio. Mae'n bosibl y byddai mwy o gostau cysylltiedig. Byddai dewisiadau hefyd yn rhoi mwy o amser i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried a ddylid rhoi caniatâd ai peidio. Gallai costau ychwanegol i ddiwydiant fod yn gysylltiedig â'r dewis hwn gan nad oes amserlen bendant ar gyfer penderfynu yngl^yn â chais cynllunio. Mae'r gost ar gyfer y dewis hwn oddeutu [Gofynnir i'r gweithredwyr ddarparu costau wedi eu dadansoddi fel a ganlyn:

Cost ffioedd ychwanegol.

Cost gweithlu ychwanegol.

Cost oedi cyn datblygu'r rhwydwaith (gan gynnwys sut y cyfrifwyd y swm) ]

- (ii) Y costau ychwanegol dan Ddewis Dau fyddai'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud cais cynllunio (gweler uchod), ynghyd â chostau ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd cynllunio er mwyn addasu neu adnewyddu mastiau lle mae'r uchder yn cael ei godi. [Gofynnir i'r gweithredwyr ddarparu costau wedi eu dadansoddi fel a ganlyn:

Cost ffioedd ychwanegol.

Cost gweithlu ychwanegol.

Cost oedi cyn datblygu'r rhwydwaith (gan gynnwys sut y cyfrifwyd y swm) ]

- (i) Ar gyfer Mater 2:

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â Dewis Tri yn cynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â gwneud cais cynllunio. Dan y rheoliadau presennol, mae ffi o £35 yn daladwy mewn perthynas â chais am benderfyniad i gymeradwyo ymlaen llaw, tra mae ffi o £95 am bob 0.1 hectar o arwynebedd safle (yn amodol ar uchafswm o £950) yn daladwy mewn perthynas â chais cynllunio. Mae'n bosibl y byddai mwy o gostau cysylltiedig. Byddai'r dewisiadau hefyd yn rhoi mwy o amser i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried a yw am roi caniatâd ai peidio. Gallai'r

dewis hwn olygu costau ychwanegol i ddiwydiant gan nad oes amserlen bendant ar gyfer penderfynu yngl^yn â chais cynllunio. Mae'r gost ar gyfer y dewis hwn oddeutu [Gofynnir i'r gweithredwyr ddarparu costau wedi eu dadansoddi fel a ganlyn:

Cost ffioedd ychwanegol.

Cost gweithlu ychwanegol.

Cost oedi cyn datblygu'r rhwydwaith (gan gynnwys sut y cyfrifwyd y swm) ]

- (ii) Y costau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â Dewis Pedwar fyddai'r rhai sy'n gysylltiedig â gwneud cais cynllunio (gweler (i) uchod), ynghyd â chostau ychwanegol mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd cynllunio i addasu neu adnewyddu mastiau lle mae'r uchder yn cael ei godi. [Gofynnir i'r gweithredwyr ddarparu'r costau wedi eu dadansoddi fel a ganlyn:

Cost ffioedd ychwanegol.

Cost gweithlu ychwanegol.

Cost oedi cyn datblygu'r rhwydwaith (gan gynnwys sut y cyfrifwyd y swm) ]

- b. Costau nad ydynt yn ailddigwydd

Dim

- c. Cyfanswm y costau cydymffurfio

Ddim yn hysbys ar hyn o bryd – gofynnir am wybodaeth fel rhan o'r ymarfer ymgynghorol hwn.

### **Yr Effaith ar Fusnesau Bach**

Rydym yn ymgynghori â Chyswllt Busnes Cymru Cyf. Gwahoddir sylwadau hefyd gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain a Ffederasiwn y Busnesau Bach.

### **Costau eraill**

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi amcangyfrif y byddai elw defnyddwyr gwasanaethau'r drydedd genhedlaeth (3G) oddeutu £100m y flwyddyn yn llai ar gyfartaledd dros gyfnod o 10 mlynedd ar brisiau 2000 o ganlyniad i oedi am un mis cyn gweithredu gwasanaethau 3G. Amcangyfrifir elw'r defnyddwyr trwy ystyried faint o arian y byddai defnyddwyr yn barod i'w dalu am eu gwasanaethau llai'r swm y rhagwelir y byddant yn ei dalu. Gelwir y mesur hwn yn warged treulwyr.

Gyda **Mater 1**, gallai'r ddau ddewis arwain at sylwadau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth brosesu ceisiadau am fastiau daear. Byddai goblygiadau o safbwynt amser a gweithlu yn gysylltiedig â hyn.

Gallai'r ddau Ddewis olygu bod ceisiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdodau cynllunio eu hystyried. Byddai goblygiadau yn gysylltiedig â hyn i'r gweithredwr o safbwynt amser a gweithlu, yn enwedig lle nad yw awdurdodau wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfredol.

Gallai Dewis Un olygu bod apeliadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad gan y gweithredwr pe na bai penderfyniad yn cael ei wneud yngl^yn â'r ceisiadau cyn diwedd y cyfnod o 8 wythnos. Byddai goblygiadau yn gysylltiedig â hyn o safbwynt amser a gweithlu i'r Arolygwyr Cynllunio.

Gyda **Mater 2**, gallai'r ddau ddewis olygu bod sylwadau ychwanegol i'r awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth brosesu ceisiadau ar gyfer mastiau ar adeiladau a strwythurau. Byddai goblygiadau yn gysylltiedig â hyn i'r gweithredwr o safbwynt amser a gweithlu.

Gallai'r ddau Ddewis olygu bod ceisiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried. Byddai goblygiadau yn gysylltiedig â hyn i'r gweithredwr o safbwynt amser a gweithlu, yn enwedig lle nad yw awdurdodau wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfredol.

Gallai Dewis Tri arwain at fwy o apeliadau ychwanegol i'r Cynulliad gan y gweithredwr pe na bai penderfyniad wedi ei wneud yngl^yn â'r ceisiadau cyn diwedd y cyfnod o 8 wythnos. Byddai goblygiadau yn gysylltiedig â hyn o safbwynt amser a gweithlu i'r Arolygwyr Cynllunio.

### **Canlyniadau'r Ymgynghori**

Datblygwyd llawer o'r cynigion yng nghyd-destun trafodaethau gyda chynrychiolwyr y diwydiant telathrebu a llywodraeth leol. Rydym yn gwahodd sylwadau yngl^yn â'r Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol yn y papur ymgynghorol gan gynnwys yr asesiad o gostau a manteision, a'r effaith ar fusnesau. Byddwn yn adolygu'r Asesiad yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd.

<b>Mater 1</b>		
	<b>Dewis Un</b>	<b>Dewis Dau</b>
<b>Busnes</b>	Costau Disgwyliedig – ffioedd cynllunio uwch a phosibilrwydd o oedi cyn datblygu.	Costau Disgwyliedig – ffioedd cynllunio uwch a phosibilrwydd o oedi cyn datblygu
<b>Llywodraeth Leol</b>	<p>Costau Disgwyliedig – angen mwy o adnoddau i ddelio gyda'r sylwadau a'r cyhoeddusrwydd ychwanegol.</p> <p>Manteision Disgwyliedig – mwy o amser i ystyried datblygiad.</p> <p>Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd yngl^yn â'r penderfyniad terfynol.</p>	<p>Costau Disgwyliedig – angen mwy o adnoddau i ddelio gyda'r sylwadau a'r cyhoeddusrwydd ychwanegol.</p> <p>Manteision Disgwyliedig – mwy o amser i ystyried datblygiad.</p> <p>Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd yngl^yn â'r penderfyniad terfynol.</p>
<b>Dinasyddion</b>	<p>Manteision Disgwyliedig – y cyhoedd yn sicr o gael cyfle i gyflwyno sylwadau yngl^yn â gosod mastiau daear.</p> <p>Costau Disgwyliedig – llai o fudd i ddefnyddwyr o ganlyniad i oedi cyn datblygu rhwydweithiau.</p>	<p>Manteision Disgwyliedig – y cyhoedd yn sicr o gael cyfle i gyflwyno sylwadau yngl^yn â gosod mastiau daear.</p> <p>Costau Disgwyliedig – llai o fudd i ddefnyddwyr o ganlyniad i oedi cyn datblygu rhwydweithiau.</p>

<b>Mater 2</b>		
	<b>Dewis Tri</b>	<b>Dewis Pedwar</b>
<b>Busnes</b>	Costau Disgwyliedig – ffioedd cynllunio uwch ac oedi posibl cyn datblygu.	Costau Disgwyliedig – ffioedd cynllunio uwch ac oedi posibl cyn datblygu.
<b>Llywodraeth Leol</b>	<p>Costau Disgwyliedig – angen mwy o adnoddau i ddelio gyda sylwadau a chyhoeddusrwydd ychwanegol.</p> <p>Manteision Disgwyliedig – mwy o amser i ystyried datblygiad.</p> <p>Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd yngl^yn â'r penderfyniad terfynol.</p>	<p>Costau Disgwyliedig – angen mwy o adnoddau i ddelio gyda sylwadau a chyhoeddusrwydd ychwanegol.</p> <p>Manteision Disgwyliedig – mwy o amser i ystyried datblygiad.</p> <p>Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd yngl^yn â'r penderfyniad terfynol.</p>
<b>Dinasyddion</b>	<p>Manteision Disgwyliedig – y cyhoedd yn sicr o gael cyfle i gyflwyno sylwadau yngl^yn â gosod mast ar adeilad neu strwythur.</p> <p>Costau Disgwyliedig – llai o fudd i ddefnyddwyr o ganlyniad i oedi cyn datblygu rhwydweithiau.</p>	<p>Manteision Disgwyliedig – y cyhoedd yn sicr o gael cyfle i gyflwyno sylwadau yngl^yn â gosod, addasu neu adnewyddu mast ar adeilad neu strwythur.</p> <p>Costau Disgwyliedig – llai o fudd i ddefnyddwyr o ganlyniad i oedi cyn datblygu rhwydweithiau.</p>

### **Gorfodaeth, Sancsiynau, Arolygu ac Adolygu**

Byddai'r darpariaethau gorfodi presennol yn ymwneud â'r trefniadau newydd. Byddai unrhyw ddatblygiad nad yw'n cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac sydd heb gael caniatâd cynllunio yn agored i gamau gorfodi gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y Cynulliad yn dal i adolygu sut mae'r trefniadau'n gweithio yn ôl y galw.

## RHAN 6

Argymhellion eraill Gr^wp Stewart yngl^yn â gofynion cynllunio ar gyfer gorsafoedd sefydlog

1. Roedd Gr^wp Stewart yn argymhell, er mwyn bod yn ofalus, mai canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio sy'n ymwneud â chysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig ddylai gael eu mabwysiadu ar gyfer eu defnyddio yn y DG, yn hytrach na chanllawiau'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol (paragraff 1.27 yn yr adroddiad). Mae'r Llywodraeth a'r **Cynulliad** yn cytuno, yn unol â'r rhagofalon a argymhellwyd, y dylai'r meysydd electromagnetig sy'n gysylltiedig â gorsafoedd sefydlog ffonau symudol gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn ar gyfer cysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig fel sy'n cael eu nodi yn Argymhelliad Cyngor yr UE dyddiedig 12 Gorffennaf 1999 ar gyfyngu cysylltiad y cyhoedd â meysydd electromagnetig (0 Hz i 300GHz). Mae'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd sefydlog eisoes yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn a bydd pob gorsaf sefydlog newydd yn cydymffurfio â hwy.

2. Argymhellodd Gr^wp Stewart y dylid datblygu patrwm o brotocolau, ar lefel Llywodraeth genedlaethol, ar y cyd â diwydiant a defnyddwyr, fel bod modd ei ddefnyddio fel sylfaen gwybodaeth i'r broses gynllunio, gan ei ddilyn yn gydwobodol ac yn agored cyn y rhoddir caniatâd i leoli gorsaf sefydlog newydd (paragraff 1.37). Argymhellodd y Gr^wp y dylai'r patrwm o brotocolau ymwneud â'r materion isod:

- rhaid i bob gweithredwr rhwydwaith cyfathrebu hysbysu'r awdurdod lleol yngl^yn â'r bwriad i sefydlu gorsafoedd sefydlog. Dylai hyn gynnwys gosodiadau ar gyfer macrogelloedd, microgelloedd a phicogelloedd.
- dylai'r awdurdod lleol gadw rhestr gyfredol o bob hysbysiad o'r fath gan sicrhau ei bod yn rhwydd i gael gafael arni er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd.
- dylai'r gweithredwr roi datganiad i'r awdurdod lleol ar gyfer pob safle gan nodi ei leoliad, uchder yr antenae, nodweddion yr amledd a'r tonfeddau, a manylion yngl^yn â'r trydan sy'n cael ei ryddhau.
- dylai unrhyw newid i orsaf sefydlog sy'n bodoli'n barod sy'n golygu cynnydd yn ei maint, neu yng nghyfanswm y trydan sy'n cael ei ryddhau, fod yn ddarostyngedig i'r broses gynllunio arferol fel pe bai'n ddatblygiad newydd.

3. Bydd y gronfa ddata genedlaethol yn delio gyda'r ddau brotocol cyntaf. Bydd ein Nodyn Cyngor Technegol drafft diwygiedig yn cynnwys manylion am y wybodaeth y dylai gweithredwyr ei darparu i awdurdodau cynllunio lleol fel rhan o gais am ganiatâd cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a nodwyd dan y trydydd protocol, er nad **ydym yn si^wr pam y byddai angen i awdurdodau cynllunio lleol gael manylion yngl^yn â** nodweddion amledd a thonfeddau'r orsaf sefydlog. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol gofyn i'r datblygwr gyflwyno cais cynllunio pe bai gorsaf sefydlog sy'n bodoli'n barod yn cynyddu cyfanswm y trydan sy'n cael ei ryddhau, fel sy'n cael ei argymhell gan y pedwerydd

protocol. Cyfrifoldeb y gweithredwr, nid yr awdurdod cynllunio lleol, yw sicrhau bod yr orsaf sefydlog yn dal i weithredu yn unol â chanllawiau'r Comisiwn.

4. Argymhellodd Gr^wp Stewart y dylid sefydlu'r patrwm cynllunio cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai nodi bod angen i'r cyhoedd fod yn gysylltiedig â'r gwaith, bod angen mewnbwn gan awdurdodau/byrddau iechyd a system ddogfennol glir ac agored y gall y cyhoedd ei harchwilio'n rhwydd (paragraff 1.38). Ym marn y **Cynulliad**, ni fyddai unrhyw bwrpas defnyddiol i ymgynghori ag awdurdodau/byrddau iechyd yngl^yn â cheisiadau unigol. Bydd ein cyfarwyddyd cynllunio diwygiedig yn cynnwys cyfarwyddyd cenedlaethol ar faterion iechyd gan gynnwys rôl canllawiau'r Comisiwn.

5. Argymhellodd Gr^wp Stewart y dylai'r Llywodraeth sefydlu cronfa ddata genedlaethol a fyddai'n cynnwys manylion am bob gorsaf sefydlog a'r meysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau ganddynt (paragraff 1.39). Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac mae wrthi'n dod â gwybodaeth am safleoedd gorsafoedd sefydlog a'r meysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau ganddynt at ei gilydd i ffurfio un gronfa ddata sydd wedi ei chyd-drefnu. Y bwriad yw sicrhau y bydd gwybodaeth sy'n berthnasol i'r safle a lefelau meysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau ar gael i'r cyhoedd ac awdurdodau cynllunio lleol.

6. Argymhellodd Gr^wp Stewart y dylid gwneud archwiliad annibynnol, parhaus ar hap o bob gorsaf sylfaenol er mwyn sicrhau nad yw'r meysydd electromagnetig yn uwch na'r canllawiau y tu allan i'r parth gwahardd a nodwyd a bod y gorsafoedd sefydlog yn cydymffurfio â'r manylion cytunedig a roddwyd iddynt. Os gwelir bod y meysydd electromagnetig sy'n cael eu rhyddhau o orsafoedd sefydlog yn uwch na'r canllawiau, neu os yw'r nodweddion yn wahanol iawn i'r hyn a nodwyd, yna dylai'r orsaf sefydlog gael ei datgomisiynu hyd nes y dangosir ei bod yn cydymffurfio (paragraff 1.40). Argymhellodd Gr^wp Stewart hefyd y dylid rhoi sylw arbennig yn y dechrau i'r gwaith o archwilio gorsafoedd sefydlog ger ysgolion a safleoedd sensitif eraill (paragraff 1.41). Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd yn bwrw 'mlaen â'r gwaith o wneud archwiliad cenedlaethol o orsafoedd sefydlog, fel sy'n cael ei gynnig gan y Gr^wp, gan ddechrau gydag ysgolion fel blaenoriaeth. Mae'r gweithredwyr ffonau symudol wedi addo gwneud gwaith i gywiro'r sefyllfa ar unwaith os gwelir bod y lefelau cysylltiad â meysydd electromagnetig yn uwch na'r canllawiau mewn unrhyw orsaf sylfaenol.

7. Argymhellodd Gr^wp Stewart, mewn perthynas â gorsafoedd sefydlog macrogell sydd wedi eu lleoli ar dir ysgol, na ddylai'r pelydriad dwysaf ddisgyn ar unrhyw ran o dir neu adeiladau'r ysgol onid yw'r ysgol a'r rhieni wedi cytuno ar hynny. Dylai ystyriaethau tebyg fod yn berthnasol i orsafoedd sefydlog macrogell sydd wedi eu lleoli ger tir ysgol (paragraff 1.42). Lle bo rhieni a/neu ysgolion yn awyddus i wybod a yw'r pelydriad dwysaf yn disgyn ar dir neu adeiladau ysgol, dylai'r ysgol gysylltu â gweithredwr yr orsaf sefydlog. Mae'r gweithredwyr wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth i ysgolion yngl^yn â dwysedd ymbelydredd amledd radio. Dylai hyn gynnwys eglurhad o'r ffordd y mae dwysedd yr ymbelydredd yn lleihau wrth fynd yn bellach oddi wrth yr antena. Pe bai'r ysgol neu'r rhieni'n bryderus iawn, gallent ofyn i weithredwr y rhwydwaith addasu'r antena.

8. Argymhellodd Gr^wp Stewart y dylai awdurdodau cynllunio, wrth wneud penderfyniadau yngl^yn â lleoliad gorsafoedd sefydlog fod â'r hawl i sicrhau y bydd y meysydd amledd radio y bydd y cyhoedd yn dod i gysylltiad â hwy yn cael eu cadw ar y lefel ymarferol isaf a fydd yn caniatáu i'r system delathrebu weithio'n effeithiol (paragraff 1.43). Byddai'r **Cynulliad** yn disgwyl i weithredwr rhwydwaith cyfathrebu symudol effeithlon sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn barod. Fel y mae'n Nodyn Cyngor